# Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol

## Cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn ffiniau.


| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod 1** ...................... | 21 Mawrth 2011 ................. | tudalen 2 |
| **Cyfarfod 2** ...................... | 20 Ebrill 2011 ..................... | tudalen 7 |
| **Cyfarfod 3** ...................... | 17 Merhefin 2011 ............... | tudalen 10 |
| **Cyfarfod 4** ...................... | 29 Gorffennaf 2011 ............ | tudalen 14 |
| **Cyfarfod 5** ...................... | 6 Hydref 2011 .................... | tudalen 19 |
| **Cyfarfod 6** ...................... | 20 Hydref 2011 .................. | tudalen 21 |
| **Cyfarfod 7** ...................... | 25 Tachwedd 2011 ............ | tudalen 29 |
| **Cyfarfod 8** ...................... | 3 Chwefror 2012 ................ | tudalen 32 |
| **Cyfarfod 9** ...................... | 4 Mai 2012 ........................ | tudalen 36 |
| **Cyfarfod 10** .................... | 27 Gorffennaf 2012 ............ | tudalen 40 |
| **Cyfarfod 11** .................... | 7 Medi 2012 ....................... | tudalen 45 |
| **Cyfarfod 12** .................... | 28 Medi 2012 ..................... | tudalen 52 |
| **Cyfarfod 13** .................... | 10 Ionawr 2013 .................. | tudalen 56 |
| **Cyfarfod 14** .................... | 20 Mawrth 2013 ................. | tudalen 61 |

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Llys y Goron Caerdydd, Rhodfa Brenin Edward VII, Caerdydd am 13:45 ddydd Llun **21 Mawrth 2011**.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr P Wood | Comisiynydd |
| Mr J Bader | Comisiynydd |
| Mr E H Lewis | Ysgrifennydd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) |
| Mr S Halsall | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Carr | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr M Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms. Michaela Gordon | Aseswr, Yr Arolwg Ordnans |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aaron Sollis (Aseswr, Yr Arolwg Ordnans) ac Alison Whitworth (Aseswr, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

**1. DATGAN BUDDIANNAU**

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

**2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 CHWEFROR 2011**
(BCW/2011/2/Papur 1)

2.1 Cymeradwyodd y Comisiwn gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**3. MATERION YN CODI ERS Y CYFARFOD AR 4 CHWEFROR 2011**
(BCW/2011/2/Papur 2)

**Arolygon Interim o'r Ffiniau rhwng Ogmore CC a Pontypridd CC, Cardiff North BC a Cardiff South a Penarth BC a Cardiff South a Penarth BC a Vale of Glamorgan CC**

3.2 Soniwyd y byddem yn ymdrin â'r arolygon hyn yn Eitem 5 ar yr Agenda.

**Deddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau**

3.3 Nodwyd y byddem yn ymdrin â'r Ddeddf yn Eitem 6 ar yr Agenda.

**Dechrau'r Chweched Arolwg Cyffredinol**

3.4 Soniwyd bod y Chweched Arolwg Cyffredinol wedi'i gyhoeddi'n swyddogol gan y pedwar Comisiwn Ffiniau ar 4 Mawrth 2011.

**Amserlen y Rhaglen**

3.5 Nodwyd y byddem yn ymdrin â'r Ddeddf yn Eitem 9 ar yr Agenda.

**4. AROLYGON INTERIM AR GYFER Y FFINIAU RHWNG ETHOLAETHAU OGMORE CC A PONTYPRIDD CC, ETHOLAETHAU CARDIFF NORTH BC A CARDIFF SOUTH A PENARTH BC AC ETHOLAETHAU CARDIFF SOUTH A PENARTH BC A VALE OF GLAMORGAN CC**
(BCW/2011/2/Papur 3)

4.1 Cyn y cyfarfod, llofnododd y Dirprwy Gadeirydd, y Comisiynwyr a'r Ysgrifennydd yr Adroddiadau Cynigion Terfynol a'r llythyrau cyhoeddi. Soniwyd y câi'r rhain eu hanfon at Swyddfa'r Cabinet cyn 1 Ebrill 2011.

4.2 Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth am ei hymdrechion o ran cwblhau'r Arolygon.

**5. DEDDF SYSTEM BLEIDLEISIO SENEDDOL AC ETHOLAETHAU 2011 (PVSC)**

5.1 Soniodd yr Ysgrifennydd fod y Bil PVSC wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 17 Chwefror 2011. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad at greu'r Ddeddf, yn enwedig gan fod y Comisiwn wedi wynebu rhai terfynau amser tynn iawn.

**6. CYFARFOD Y COMISIYNAU SENEDDOL YNG NGHAERDYDD**

6.1 Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth am drefnu cyfarfod addysgiadol a buddiol iawn.

**7. POLISÏAU A PHENDERFYNIADAU**
(BCW/2011/2/Papur 4)

7.1 Soniwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi dyfeisio'r papur i amlinellu rhai o'r polisïau a'r penderfyniadau yr oedd ar y Comisiwn eu hangen dros y cyfarfodydd sydd i ddod. Cafodd y rhain eu trafod yn gryno fel a ganlyn:

**Llyfryn Gwybodaeth**

7.2.1 Cafwyd trafodaeth fer ynghylch cynnwys y Llyfryn Gwybodaeth. **Cytunwyd** y dylai'r llyfryn wneud y canlynol:

- Amlinellu'r gweithdrefnau
- Pwysleisio'r anawsterau a'r newid ers y rheolau blaenorol
- Cynnig cyngor ar argymhellion a chynrychiolaethau priodol

**Gwrandawiadau Cyhoeddus a'u Cadeiryddion**

7.3 **Cytunwyd** y byddai'n well gan y Comisiwn ddefnyddio Comisiynwyr Cynorthwyol fel Cadeiryddion y Gwrandawiadau Cyhoeddus. Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd am i restr o'r Comisiynwyr Cynorthwyol gael ei darparu ar ei gyfer.

7.4 Yn sgil y trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Comisiynau Seneddol yn gynharach y diwrnod hwnnw, trafodwyd ymagwedd y Comisiwn Ffiniau i Loegr ynghylch gofyn i Gadeiryddion Gwrandawiadau Cyhoeddus adrodd i 'Gadeirydd Arweiniol' ar gyfer pob rhanbarth ac yna i lunio Adroddiad i'r Comisiynwyr ei ystyried. Cydnabu fod i'r ymagwedd hon deilyngdod sylweddol ac y gall y Comisiwn ei mabwysiadu ar sail Cymru gyfan.

7.5 Trafodwyd yn fyr y sgiliau angenrheidiol yr oedd eu hangen i gadeirio gwrandawiadau cyhoeddus a'r anawsterau posibl ynghylch argaeledd Comisiynwyr Cynorthwyol.

7.6 Amlinellodd y papur leoliadau posibl ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus. Awgrymwyd lleoliad amgen yng nghanolbarth Cymru, sef Aberystwyth, i'w ystyried yn y dyfodol.

7.7 Awgrymwyd cyn belled ag sy'n bosibl y dylai'r gwrandawiadau cyhoeddus fod yn gyson ac y câi hyn ei gyflawni'n bennaf drwy'r nodyn briffio a ddarperir gan y Comisiwn i'r Cadeiryddion.

7.8 **Cytunwyd** na fyddai'r Comisiynwyr yn mynd i'r gwrandawiadau. **Cytunwyd hefyd** y câi'r cynllun ei gyflwyno ar ddechrau pob gwrandawiad ac y byddai aelod o'r Ysgrifenyddiaeth yn gwneud hynny. **Cytunwyd <u>na</u>** fyddai disgwyl i'r aelod o'r Ysgrifenyddiaeth sy'n rhoi'r cyflwyniad ateb cwestiynau ar y cynigion.

**Terminoleg**

7.9 Yn sgil y trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Comisiwn Seneddol yn gynharach y diwrnod hwnnw, cafodd enw'r arolwg ei ystyried. **Cytunwyd**, gan y câi'r arolwg ei gynnal yn unol â rheolau a oedd yn wahanol iawn i'r rhai a oedd ar waith yn yr arolwg diwethaf, nad oedd yn briodol defnyddio teitl 'Chweched Arolwg Cyffredinol' gan ei fod yn awgrymu parhad o'r gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'r arolygon blaenorol. **Cytunwyd** y dylid galw'r arolwg yn 'Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol'.

7.10 Yn sgil y cytundeb a wnaed yng nghyfarfod y Comisiwn Seneddol yn gynharach y diwrnod hwnnw, **cytunwyd** y câi'r cyn 'Argymhellion Dros Dro' eu galw erbyn hyn yn 'Gynigion Cychwynnol', yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd.

7.11 **Cytunwyd** y câi'r Llyfryn ei alw'n 'Llyfryn Gwybodaeth'.

**Amseru**

7.12 Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch cyhoeddi'r cynigion cychwynnol a sgil-effeithiau amseru'r gwrandawiadau cyhoeddus. Daethpwyd i'r casgliad y byddai cyhoeddi ar ddechrau mis Medi yn well, er y byddai hynny'n golygu cynnal y

gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod tymor cynhadledd pleidiau'r DU (mae tymor cynadleddau pleidiau Cymru ym mis Mawrth).

**Cyfarfod â'r Pleidiau Gwleidyddol**

7.13 Soniwyd bod disgwyl i'r cyfarfod gael ei gynnal ar 20 Ebrill. Câi amser ei gadarnhau. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at y pleidiau'n gofyn am eitemau agenda.

7.14 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn datgan ei ystyriaethau presennol ar y gweithdrefnau yn unig. Câi trafodaethau gyda'r pleidiau eu cyfyngu i'w hystyriaethau mewn perthynas â'r gweithdrefnau yn unig a châi unrhyw drafodaethau tuag at gynlluniau neu gynigion eu gwrthsefyll.

7.15 **Cytunwyd** y câi nodyn cytûn o'r cyfarfod ei gyhoeddi. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at yr Athro Ron Johnson i gadarnhau mai felly fyddai hi.

**Cyfarfod â Peter Hain AS**

7.16 Cytunwyd y byddai'n amhriodol i'r Comisiwn gyfarfod â Mr Hain. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenydd yn ysgrifennu at Mr Hain i roi gwybod iddo am benderfyniad y Comisiwn.

## 8. BUSNES ARALL

**Cynlluniau**

8.1 Soniodd yr Ysgrifenyddiaeth ei bod wedi dechrau ar y broses o ddatblygu cynlluniau i'r Comisiwn eu hystyried yn y dyfodol. Cafodd nifer o anawsterau sydd wedi codi hyd yn hyn eu hesbonio a'u trafod yn fyr. Soniwyd, os bydd y Comisiwn yn cyfarfod ar yr adegau angenrheidiol, y dylai fod yn bosibl cyhoeddi ar ddechrau mis Medi.

**Logo**

8.2 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ystyried logo newydd ar sail y logo roedd y Comisiwn Ffiniau i Loegr wedi'i gomisiynu. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn darparu logo drafft ar gyfer y Dirprwy Gadeirydd a'r Comisiynwyr er mwyn iddynt ei ystyried.

**Ffiniau Llywodraeth Leol**

8.3 Soniodd yr Aseswr o'r Arolwg Ordnans, yn sgil y newid i Ddeddf PVSC o ran ardaloedd Cymunedol a wardiau'r Cymunedau hynny (lle maent yn bodoli), eu bod wedi trafod y posibilrwydd o gynnwys y Ffiniau Llywodraeth Leol yn eu 'Cynnyrch Llinell Ffiniol'. Pe bai'n bosibl cael y data gan y Comisiwn Ffiniau

Llywodraeth Leol i Gymru a QA, gallai fod yn briodol iddo fod ar gael yn y fersiwn o'r Cynnyrch a gaiff ei ryddhau ym mis Hydref.

8.4 **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Ysgrifennydd yn darparu'r data perthnasol i'r Arolwg Ordnans.

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

9.1 Pennwyd dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf, sef 20 Ebrill 2011.

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 11.00am, ddydd Iau, **20 Ebrill 2011**.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh. Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr P Wood | Comisiynydd |
| Mr J Bader | Comisiynydd |
| Mr E H Lewis | Ysgrifennydd |
| Mr D Carr | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr M Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms Michaela Gordon | Asesydd, yr Arolwg Ordnans |

Cafwyd ymddiheuriadau gan Aaron Sollis (Asesydd yr Arolwg Ordnans), Alison Whitworth (Asesydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol) a Steve Halsall (Ysgrifenyddiaeth).

**1. DATGAN BUDDIANNAU**

1.1 Ni chafodd unrhyw fuddiannau newydd eu datgan.

**2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 MAWRTH 2011** (BCW/2011/3/Papur 1)

2.1 Cymeradwyodd y Comisiwn gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**3. MATERION YN CODI ERS Y CYFARFOD AR 4 CHWEFROR 2011** (BCW/2011/3/Papur 2)

**Polisïau a phenderfyniadau**

3.1 Roedd rhagor o waith wedi cael ei wneud ynghylch y rhain ac y byddai eitemau 6 a 7 ar yr agenda yn mynd i'r afael â nhw.

**Cyfarfod gyda'r pleidiau gwleidyddol**

3.2 Roedd gwahoddiad wedi'i anfon i'r pedair prif blaid wleidyddol a byddai unrhyw eitemau agenda a dderbynnir yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod hwn.

**Cyfarfod gyda Mr Peter Hain AS**

3.3 Roedd llythyr wedi'i anfon at Mr Hain yn ei gynghori y byddai'n amhriodol i'r Comisiwn gwrdd ag ef.

**Logo**

3.4 Roedd fersiwn newydd y logo wedi'i chylchredeg ymhlith y Comisiynwyr.

**Ffiniau Llywodraeth Leol**

3.5 Roedd y Dirprwy Ysgrifennydd wedi rhoi'r data i Asesydd yr Arolwg Ordnans.

**Ariannu**

3.6 Bydd yr isadrannau noddi, Swyddfa'r Cabinet, yn ariannu'r Comisiwn yn uniongyrchol ar gyfer staffio a swyddfa a bydd yr Ysgrifennydd a'r Rheolwr Cyllid yn cwrdd â chydweithwyr o Swyddfa'r Cabinet i gadarnhau'r manylion. Bydd y trefniant hwn yn dechrau o ail chwarter y flwyddyn ariannol bresennol.

**4. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN RHYNG-SENEDDOL**
(BCW/2011/3/Papur 3)

4.1 Cymeradwyodd y Comisiwn gofnodion y cyfarfod. **Cytunwyd** y byddent yn cael eu cylchredeg ymhlith Comisiynau eraill y DU.

4.2 Ar ran y Dirprwy Gadeiryddion eraill, diolchwyd yr Ysgrifenyddiaeth gan y Dirprwy Gadeirydd am drefnu'r cyfarfod. Roeddent o'r farn bod y cyfarfod yn un buddiol dros ben.

**5. LLYFRYN GWYBODAETH**
(BCW/2011/3/Papur 4)

5.1 Cafwyd disgrifiad byw o broses ddrafftio'r llyfryn. Aeth y Comisiwn ati wedyn i ystyried y drafft yn fanwl gan wneud sawl newid.

5.2 O dan yr adran am y gwrandawiadau cyhoeddus, trafodwyd a fyddai'r Comisiwn yn dymuno cael Comisiynydd Cynorthwyol i weithredu fel 'Cadeirydd Arweiniol'. Byddai'r unigolyn dan sylw'n gweithredu fel cadeirydd yn rhai o'r gwrandawiadau cyhoeddus, yn cydlynu'r cadeiryddion eraill er mwyn gwneud y gwrandawiadau cyhoeddus yn gyson, yn ogystal â pharatoi adroddiad, gydag argymhellion, ar gyfer y Comisiwn am eu safbwyntiau o ganlyniad i'r gwrandawiadau cyhoeddus. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd a'r Dirprwy Gadeiryddion yn ystyried y rhestr o Gomisiynwyr Cynorthwyol er mwyn penodi 'Cadeiryddion Arweiniol'.

5.3 O ran Cadeiryddion y Gwrandawiad Cyhoeddus, yn ogystal â'r Cadeirydd Arweiniol, **cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn gwirio gyda chynghorydd cyfreithiol pwy y gallai benodi'n Gadeirydd ar Wrandawiad Cyhoeddus a chyfradd y tâl.

5.4 Ar ôl ystyried a diwygio drafft y Llyfryn Gwybodaeth, **cytunwyd** y caiff rhagor o ddrafftiau eu cylchredeg drwy e-bost.

**6. AMSERLEN Y RHAGLEN**
(BCW/2011/3/Papur 6)

6.1 **Cytunwyd** bod yr amserlen a ddarparwyd yn dderbyniol.

**7. Polisïau a phenderfyniadau**
(BCW/2011/3/Papur 5)

7.1 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi diwygio'r papur a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol a amlinellodd rai o'r polisïau a'r penderfyniadau sy'n ofynnol gan y Comisiwn yn y cyfarfodydd i ddod. Dyma sut y trafodwyd y papur yn gryno.

**Penderfyniadau blaenorol**

7.2 Amlinellwyd penderfyniadau'r cyfarfod blaenorol.

**Cynlluniau**

7.3 Amlinellodd yr Ysgrifenyddiaeth y gwaith modelu oedd wedi'i gynnal ac, o ystyried y rhain, roeddent am gael barn y Dirprwy Gadeirydd a'r Comisiynwyr am:

- Mannau cychwyn posibl fydd yn sail ar gyfer adeiladu'r cynllun.
- Pa mor agos y dylem gadw at ffiniau awdurdodau unedol ac etholaethau cyfredol a pha mor bwysig ydynt?
- Y posibilrwydd o rannu adrannau etholiadol yn ôl eu rhannau etholaethol (cymunedau a wardiau cymunedol)
- Enwi'r etholaethau.

7.4 **Cytunwyd** bod sylfaen y gwaith modelu'n gadarn a'u bod am weld cynlluniau'n fanylach, gan gynnwys y rhai lle mae adrannau etholiadol yn cael eu rhannu ond bod cymunedau cyfan yn cael eu cadw mewn etholaeth unigol.

**Gwrandawiadau cyhoeddus**

7.5 **Cytunwyd** na ddylid cynnal unrhyw wrandawiad cyhoeddus mewn mwy nag un lle.

**8. UNRHYW FATER ARALL**

8.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

9.1 17 Mehefin 2011 a 29 Gorffennaf 2011 fydd dyddiadau'r ddau gyfarfod nesaf.

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 10.00am, ddydd Gwener, **17 Mehefin 2011**.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh. Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr P Wood | Comisiynydd |
| Yr J Bader | Comisiynydd |
| | |
| Mr E H Lewis | Ysgrifennydd |
| | |
| Mr S Halsall | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Carr | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr M Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Williams | Ysgrifenyddiaeth |
| Mrs A Davies | Ysgrifenyddiaeth |
| | |
| Ms Michaela Gordon | Asesydd, yr Arolwg Ordnans |

Croesawyd Gerard Elias i'r cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd. Roedd Mr Elias yno i arsylwi.

**1. DATGAN BUDDIANNAU**

1.1 Hysbysodd Mr Paul Wood y cyfarfod bod ei wraig yn aelod o Gyngor Cymuned Creunant, sef ardal a fyddai'n cael ei thrafod yn y cyfarfod. **Cytunwyd** nad oedd unrhyw wrthdaro mewn buddiannau gan fod bron pawb sy'n bresennol yn byw mewn ardaloedd a fyddai'n cael eu trafod, ac nad oedd unrhyw wrthdaro mewn buddiannau.

**2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**3. COFNODION Y CYFARFOD AR 20 EBRILL 2011**
(BCW/2011/4/Papur 1)

3.1 Cymeradwyodd y Comisiwn gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**4. MATERION YN CODI ERS Y CYFARFOD AR 20 EBRILL 2011**
(BCW/2011/4/Papur 2)

**Llyfryn Gwybodaeth**

4.1 Roedd draft pellach wedi'i baratoi a byddai'n cael ei drafod o dan Eitem 6 ar yr Agenda.

**Cyfarfod gyda'r pleidiau gwleidyddol**

4.2 Nid oedd cytundeb ynghylch y cofnodion eto.

**Ariannu**

4.3 Yn dilyn cyfarfod ym mis Ebrill 2011, bu cynnydd pellach o ran cael arian gan Swyddfa’r Cabinet oedd i fod i ddechrau ym mis Gorffennaf 2011. Bydd costau staff a swyddfa’n cael eu talu ymlaen llaw ar ôl codi’r archebion a’u cyflwyno i Swyddfa’r Cabinet. Byddai’r sefyllfa’n cael ei hadolygu wedyn ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Ar hyn o bryd, **cytunwyd** bod gan yr Ysgrifenyddiaeth ddigon o adnoddau i gynnal yr Arolwg Seneddol. **Nodwyd** bod yr Archwilwyr a’r Cynghorydd Ariannol wedi cymeradwyo hyn.

**5. YSTYRIED CYNLLUNIAU**
(BCW/2011/4/Papur 3)

5.1 Rhoddodd Mr Matthew Redmond fraslun o sawl cynllun arfaethedig ar gyfer etholaethau Seneddol o dan Ddeddf 2011. Cydnabyddodd y Cadeirydd fod Mr Redmond a’r Ysgrifenyddiaeth wedi gwneud gwaith aruthrol, ac ategodd y Comisiwn y farn hon. Mynegodd y Dirprwy Gadeirydd pa mor ddiolchgar ydoedd. Trafododd y Comisiwn y cynlluniau, a dyma grynodeb o’r prif bwyntiau a godwyd.

5.2 Cynllun 1

- Mae angen teithio y tu allan i’r etholaeth i gyrraedd etholaeth arall
- Byddai’r cynllun yn anffafrio rhai rhannau o Gymru
- Roedd y siapiau’n peri anawsterau o ran cysylltiadau cyfathrebu
- Byddai’r cynllun yn creu anawsterau o bwys yn etholaeth Sir Gaerfyrddin o ran siâp a phellter

5.3 Cynllun 2

- Ar y cyfan, mae Newport yn parhau’r un fath ar wahân i Langstone, Rogerstone a Graig.
- Torfaen – wedi’i chadw’n gyfan gan ychwanegu Caerleon ati
- Blaenau Gwent – wedi’i chadw’n gyfan.
- Merthyr Tudful a Rhymni – ychwanegu Bargoed, Ynysybwl, Coed y Cwm ac Abercynon.
- Cardiff South and Penarth – Adamsdown wedi’i ychwanegu. Sully wedi’i dynnu.
- Cardiff West - heb Glan yr Afon. Llantrisant a Llanilltud Faerdref wedi’u hychwanegu.

5.4 Cynllun 3

- Cysylltiad da rhwng Caernarfon a Môn.
- Taith hir o Aberteifi i’r gogledd.
- Da i’r gogledd ond ddim cystal i ganolbarth a de Cymru.

5.5 Cynllun 4

- Ni fyddai cysylltiadau cymunedol yn cael eu hystyried pe byddai Grangetown yn cael ei dynnu o Gaerdydd a'i roi gyda Phenarth a'r Barri.
- Anawsterau cyfathrebu gydag Afan and Rhondda.
- Mynydd Uchaf – o'r Coed Duon i Ferthyr Tudful (yn cynnwys chwe awdurdod unedol).

5.6 Cynllun 5

- Cardiff East and Newport. Anawsterau gyda'r rhan hon o'r cynllun gan ei bod yn cysylltu dwy ddinas. Gofynnodd y Comisiwn am ddewis arall.

5.7 Cynllun 5 oedd yr un oedd orau gan y Comisiwn gan mai dyma'r un oedd yn rhoi'r ystyriaeth fwyaf i gysylltiadau cymunedol a ffactorau lleol o fewn y rheolau sydd yn y ddeddfwriaeth. Felly, gofynnodd y Comisiwn am fersiwn diwygiedig o Gynllun 5 i adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd.

## 6. LLYFRYN GWYBODAETH

(BCW/2011/4/Papur 4)

6.1 Roedd draft pellach o'r Llyfryn Gwybodaeth wedi'i baratoi ac fe'i hystyriwyd.

6.2 **Cytunwyd** y byddai Mr John Bader yn ailddrafftio'r llyfryn gwybodaeth (ar gyfer yr wythnos yn dechrau ar 20 Mehefin) ac, ar ôl ei gwblhau, yn anfon copi at Mr Gerard Elias er mwyn iddo ei wirio a'i ddosbarthu.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIWN FFINIAU I GYMRU 2010/2011

(BCW/2011/4/Papur 5)

7.1 Ystyriwyd drafft o Adroddiad Blynyddol y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Gadeirydd yn ysgrifennu Rhagair yr adroddiad.

## 8. LLEOLIAD Y GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS

(BCW/2011/4/Papur 6)

8.1 Cynigiwyd pum lleoliad ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried lleoliadau yn Llandrindod a Llanfair ym Muallt hefyd. Awgrymodd Mr Paul Wood na ddylai'r gwrandawiadau ddechrau na gorffen yng Nghaerdydd. Dylid gofyn i bleidiau gwleidyddol a ydynt yn dymuno gwneud cynrychiolaeth. Byddai rhagor o ymchwil yn cael i wneud parthed a yw'r lleoliadau ar gael a faint o le sydd ynddynt

8.2 **Cytunwyd** mai Gerard Elias fyddai'r Comisiynydd Arweiniol gyda Chomisiynydd Cynorthwyol. Cysylltwyd â Geraint Walters ynglŷn â bod yn Gomisiynydd Cynorthwyol, ond pwysleisiwyd bod angen iddo gael gwybod beth fydd y dyddiadau cyn gynted â phosibl. Awgrymodd Mr Gerard Elias y gallai Geraint Walters arwain mewn gwrandawiadau lle mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yno'n siarad Cymraeg. Cytunwyd y dylid cadarnhau'r Comisiynwyr Cynorthwyol cyn gynted â phosibl.

## 9. ADRODDIAD CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y COMISIWN A DIWEDDARIAD AM Y CYNLLUN (BCW/2011/4/Paper 7)

9.1 Nid oedd yn glir pa un a fyddai'r adroddiad/neu ddiweddariad y cynllun yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Iaith. Gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth wneud ymholiadau am y sefyllfa ddiweddaraf a mynd rhagddo fel y bo'n briodol.

## 10. AMSERLEN Y RHAGLEN

10.1 Dosbarthwyd Amserlen y Rhaglen er gwybodaeth.

## 11. UNRHYW FATER ARALL

11.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## 12. CYFARFOD NESAF

12.1 Dydd Gwener, 29 Gorffennaf 2011. Nid oedd rhagor o gyfarfodydd wedi'u trefnu.

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 10:30am, ddydd Gwener **29 Gorffennaf 2011**.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr P Wood | Comisiynydd |
| Mr J Bader | Comisiynydd |
| Mr E H Lewis | Ysgrifennydd |
| Mr S Halsall | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Carr | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr M Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Williams | Ysgrifenyddiaeth (yn bresennol ar gyfer Eitemau Agenda 7, 8 a 9 yn unig) |
| Mrs A Davies | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms. Michaela Gordon | Aseswr, Yr Arolwg Ordnans |

## 1. SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Agorodd Mr Ustus Lloyd Jones y cyfarfod drwy fynegi ei anfodlonrwydd ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â Paul Wood a John Bader. Roedd Mr Wood a Mr Bader wedi cyflwyno eu hymddiswyddiadau i'r Comisiwn oherwydd materion nad oeddent yn gysylltiedig â gwaith y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Er bod ymddiswyddiadau'r Comisiynwyr wedi'u derbyn, byddent yn parhau yn eu swyddi hyd nes i Gomisiynwyr newydd gael eu penodi. Mynegodd Mr Ustus Lloyd Jones ei ddiolchgarwch i'r Comisiynwyr am eu safiad.

1.2 Dywedodd y Comisiwn, pe câi'r Comisiynwyr newydd eu penodi ar ddechrau'r hydref, y byddai gan y Comisiwn derfyn amser tynn i gyflwyno cynigion cychwynnol ar gyfer Arolwg 2013. Fodd bynnag, soniodd Mr Edward Lewis na fyddai unrhyw oblygiadau difrifol o ran cyflawni'r arolwg yn y pen draw a gâi ei gwblhau erbyn mis Hydref 2013.

1.3 Mynegodd Mr Ustus Lloyd Jones ei ddiolchgarwch i Paul Wood a John Bader am eu cyfraniad enfawr ac am fudd eu doethineb a'u craffter.

1.4 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2011
(BCW/2011/5/Papur 1)

3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 17 Mehefin 2011 fel gwir gofnod.

## 4. MATERION YN CODI ERS Y CYFARFOD AR 17 MEHEFIN 2011
(BCW/2011/5/Papur 2)

**Cyfarfod â'r Pleidiau Gwleidyddol**

4.1 Rhestrwyd cofnodion y cyfarfod gyda'r Pleidiau Gwleidyddol o dan Eitem 8 ar yr Agenda.

**Cyllid**

4.2 Câi diweddariad gan y Rheolwr Cyllid ei roi o dan Eitem 9 ar yr Agenda.

**Cynlluniau**

4.3 Yn sgil y cyfarfod diwethaf, gwnaed rhagor o waith ar y cynlluniau. Câi hyn ei gyflwyno o dan Eitem 5 ar yr Agenda.

**Llyfryn Gwybodaeth**

4.4 Lluniwyd drafft arall o'r Llyfryn Gwybodaeth a châi ei drafod o dan Eitem 6 ar yr Agenda.

**Gwrandawiadau Cyhoeddus**

4.5 Câi'r cynlluniau diweddaraf ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus eu trafod o dan Eitem 7 ar yr Agenda.

**Cynllun yr Iaith Gymraeg**

4.6 Roedd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cael ei brosesu a châi'r wefan ei diweddaru.

**Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru**

4.7 Roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi'i ddosbarthu a'i gymeradwyo ar gyfer cyhoeddi.

## 5. YSTYRIED CYNLLUNIAU
(BCW/2011/5/Papur 3)

5.1 Cyflwynwyd cyfres o ddewisiadau i'r cyfarfod blaenorol. 'Cynllun 5' oedd y cynllun a ffafriwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2011 ond awgrymwyd rhai addasiadau. Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth dri dewis ar sail yr addasiadau hyn.

5.2 Ar ôl ystyried y dewisiadau amrywiol a addasodd y cynlluniau cynharach, roedd y Comisiynwyr o'r farn mai 'Cynllun 5B' oedd y cynllun mwyaf priodol. Mae nodyn byr am yr ystyriaethau hyn yn Atodiad A. Fodd bynnag, penderfynwyd nad oedd yn briodol cymeradwyo unrhyw gynllun ar y cam hwn gan y câi Comisiynwyr newydd eu penodi maes o law.

## 6. LLYFRYN GWYBODAETH
(BCW/2011/5/Papur 4)

6.1 Roedd y Comisiwn wedi derbyn nifer o sylwadau gan Gyfreithiwr y Trysordy, Roland Phillips, mewn perthynas â'r Llyfryn Gwybodaeth a chynhaliwyd arolwg pellach o'r drafft diweddaraf. Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd am i'r nodiadau ar y diwygiadau a gymerwyd yn ystod y drafodaeth gael eu defnyddio i lunio fersiwn newydd ac i'r newidiadau gael eu hamlygu a'u hanfon at Roland Phillips er mwyn iddo eu cymeradwyo, ynghyd â chais am gyngor ar olygu. Byddai Mr Ustus Lloyd Jones ac Edward Lewis yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon pellach.

## 7. OEDI/NEWID COMISIYNYDD – DATGANIAD NEWYDDION

7.1 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn awyddus i hysbysiad gael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid am y newidiadau i'r Comisiwn a'r oedi cysylltiedig o ran arolwg 2013.

7.2 Roedd Mr Ustus Lloyd Jones wedi drafftio datganiad newyddion a gymeradwywyd. Cytunodd Edward Lewis y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ymdrin ag unrhyw ymholiadau pellach drwy'r swyddfa.

## 8. GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS

8.1 Rhoddodd David Williams y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod am drefnu'r gwrandawiadau cyhoeddus. Roedd pob un o'r lleoliadau wedi'u trefnu. Nid oedd Prifysgol Bangor ar gael ac felly enwyd Gwesty'r Celtic Royal yng Nghaernarfon fel y lleoliad newydd yn cwmpasu gogledd-orllewin Cymru. Roedd e-bost wedi'u hanfon a'u derbyn er mwyn cadarnhau trefniadau. Gan fod y trefniadau wedi'u gohirio yn hytrach na'u canslo, ni châi tâl ei godi ar y Comisiwn am ganslo.

8.2 Roedd Mr Gerard Elias, Comisiynydd Cynorthwyol arweiniol, wedi gofyn am adborth ar ddyddiadau'r gwrandawiadau cyhoeddus i'w haildrefnu.

8.3 Rhoddwyd manylion am ymgeiswyr i fod yn Gomisiynwyr Cynorthwyol. Byddai Mr Clive Lewis yn cynorthwyo yn y ddau gyfarfod yn ne Cymru a byddai Mr Geraint Walters yn cynorthwyo yng ngogledd Cymru.

## 9. NODYN AM Y CYFARFOD GYDA PHLEIDIAU GWLEIDYDDOL

9.1 Cytunwyd ar y cofnodion a chaent eu cyhoeddi.

## 10. AMSERLEN Y RHAGLEN

10.1 Rhoddodd Edward Lewis y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen i'r cyfarfod. Diwygiwyd yr amserlen i adlewyrchu'r newidiadau i'r Comisiwn. Câi'r arolwg ei gyflwyno erbyn mis Hydref 2013 ac roedd y dyddiadau newydd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer gwaith cyfieithu.

## 11. CYLLID

11.1 Cadarnhaodd Dave Carr, Rheolwr Cyllid, fod digon o gyllid ar gael gan Swyddfa'r Cabinet i wneud y gwaith.

**12. BUSNES ARALL**

12.1 Soniodd Edward Lewis am drafodaethau gyda Swyddfa Cymru ynghylch arolygon o etholaethau Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chreu cysylltiadau â Bil yn y sesiwn nesaf gan y byddai'n anodd gwneud hynny o fewn y terfyn amser. Disgwyliwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyhoeddi'r Papur Gwyrdd yn 2012 a châi deddfwriaeth newydd ei rhaglennu ar gyfer Trydedd Sesiwn y Senedd.

12.2 Unwaith eto, dywedodd Mr Ustus Lloyd Jones ei fod yn edifar ganddo fod y Comisiynwyr Seneddol wedi'u rhoi mewn sefyllfa lle roeddent yn teimlo bod angen iddynt ymddiswyddo. Mynegodd ei ddiolchgarwch gwresog a brwdfrydig am y cyfraniad eithriadol a wnaed i'r Comisiwn. Ni fu hynny erioed yn amlycach nag yng nghyfarfod heddiw.

**11. Y CYFARFOD NESAF**

11.1 Ni threfnwyd unrhyw gyfarfodydd pellach.

## ATODIAD A

**Cynllun 5A**

Awgrymodd y drafodaeth fod y Cynllun 5 gwreiddiol yn well na'r un hwn.

Anfanteision:

- Etholaeth sy'n ymestyn o'r arfordir i Fargoed
- Siâp afreolaidd
- Nid oes cydberthynas rhwng y cymunedau

**Cynllun 5B**

Soniodd y Comisiynwyr fod y cynllun penodol hwn a oedd yn canolbwyntio ar Geredigion yn arwain at leihau'r ardal o 125km$^2$ i 110km$^2$ ar ôl y drafodaeth a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol. Roedd hwn yn well na'r cynllun gwreiddiol.

Manteision:

- Siâp unedig
- Yn ymestyn dros arwynebedd llai
- Cyfathrebu gwell

Anfanteision:

- Yn dod â Chenarth o awdurdod unedol arall
- Cynnydd mewn arwynebedd a phoblogaeth yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed sydd 0.5% yn uwch na'r cwota etholiadol – bu 4.85% islaw'r cwota etholiadol gynt

**Cynllun 5C**

Unwaith eto, roedd y cynllun hwn yn ymdrin ag ardal gorllewin Cymru.

Anfanteision:

- Mae'r etholaeth newydd yn ymestyn o Abergwaun at Ddyffryn Aman
- Mae'n cynnwys Llanidloes sydd wedi'i hynysu gan y mynyddoedd

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 3.30pm, ddydd Iau, **6 Hydref 2011**.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh. Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr E H Lewis | Ysgrifennydd |
| Mr S Halsall | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Carr | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr M Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mrs A Davies | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms Michaela Gordon | Asesydd, yr Arolwg Ordnans |

**1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU**

1.1 Dechreuodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod drwy groesawu'r ddau Gomisiynydd newydd. Cafwyd 64 o geisiadau i gyd ar gyfer swyddi'r Comisiynwyr, ac roedd rhai ymgeiswyr cryf iawn yn eu plith. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd hefyd i'r Comisiynwyr sy'n rhoi'r gorau i'w swyddi, Mr Paul Wood a Mr John Bader.

1.2 Ni chafodd unrhyw fuddiannau newydd eu datgan.

**2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2.1 Roedd Mr Gerard Elias, y Comisiynydd Cynorthwyol, wedi anfon ei ymddiheuriadau. Eglurodd y Dirprwy Gadeirydd beth oedd rôl Mr Elias gyda'r Comisiwn.

**3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2011**
(BCW/2011/6/Papur 1)

3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2011 fel cofnod cywir.

**4. MATERION YN CODI ERS Y CYFARFOD AR 29 GORFFENNAF 2011**
(BCW/2011/6/Papur 2)

**Gwrandawiadau Cyhoeddus**

4.1 Roedd Gerard Elias wedi'i benodi'n 'Gomisiynydd Cynorthwyol Arweiniol' a byddai felly'n cadeirio'r Gwrandawiadau Cyhoeddus gyda Geraint Walters a Clive Lewis yn Gomisiynwyr Cynorthwyol.

4.2 Soniwyd bod y Comisiynwr Cynorthwyol wedi'u gwahodd i un o'r Gwrandawiadau Cyhoeddus a gynhelir gan Gomisiwn Ffiniau Lloegr. Roedd y gwahoddiad yn agored i'r Comisiynwyr hefyd er mwyn iddynt gael gweld beth sy'n digwydd.

## 5. AROLWG 2013 – ADRODDIAD AM GYNNYDD

5.1 Rhoddodd Matthew Redmond fraslun o'r cynnydd a fu o ran datblygu amrywiaeth o gynlluniau sy'n bodloni gofynion Deddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Roedd pum cynllun manwl wedi'u datblygu gyda chryfderau ac anawsterau amrywiol yn gysylltiedig â phob un. Trafodwyd y cynlluniau hyn yn fanwl yn un o gyfarfodydd y Comisiwn ym mis Gorffennaf, ond nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa gynllun fyddai orau.

5.2 Yn sgîl y newid mewn Comisiynwyr, gofynnodd y Comisiwn am i'r holl ddogfennaeth o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2011 gael eu hailanfon i'r Comisiynwyr. Bydd y Comisiynwyr yn eu hadolygu'n fanwl a bydd y Comisiwn yn trafod pob cynllun yn eu cyfarfod nesaf, gan gwestiynu pob etholaeth arfaethedig ac edrych ar bob ffin yn fanwl er mwyn paratoi'r cynllun gorau gan y Comisiwn.

5.3 Diolchwyd Matthew Redmond gan y Dirprwy Gadeirydd am arwain y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau.

### LLYFRYN GWYBODAETH

5.4 Nid oedd Llyfryn Gwybodaeth y Comisiwn wedi'i gwblhau ac roedd angen cytuno arno cyn ei gyfieithu a'i gyhoeddi. Cyflwynodd y Dirprwy Gadeirydd newidiadau o ran arddull ac awgrymodd Paul Loveluck a Michaela Gordon rai newidiadau ychwanegol. Cymeradwywyd y Llyfryn Gwybodaeth ar ôl cyflwyno'r newidiadau hyn.

### AMSERLEN Y RHAGLEN

5.5 Trafododd y Comisiwn yr amserlen ar gyfer Arolwg 2013 a chytunodd fod angen cadw at yr amserlen bresennol, gyda'r cyfnod ymgynghori cychwynnol ar ddechrau 2012, gan mai dyna pryd mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol ar gael.

## 6. CYFARFOD NESAF

6.1 Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau, 20 Hydref.

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 1:30pm, ddydd Iau **20 Hydref 2011**.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr E H Lewis | Ysgrifennydd |
| Mr S Halsall | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Carr | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr M Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mrs A Davies | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr D Williams | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms. Michaela Gordon | Aseswr, Yr Arolwg Ordnans |

**1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU**

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

**2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 HYDREF 2011** (BCW/2011/7/Papur 1)

3.1 Awgrymwyd nifer o ddiwygiadau drafftio i gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2011 a 6 Hydref 2011. Yn dilyn y diwygiadau hyn, câi'r cofnodion eu llofnodi fel cofnod gwir o'r cyfarfodydd.

**4. MATERION YN CODI ERS Y CYFARFOD AR 6 HYDREF 2011** (BCW/2011/7/Papur 2)

**Lleoliadau Gwrandawiadau Cyhoeddus ac Amserlenni Rhaglenni**

4.1 Roedd 'Llyfryn Gwybodaeth' Arolwg 2013 y Comisiwn wedi'i gyfieithu ac roedd y costau cyhoeddi wedi'u cymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet. Câi'r Llyfryn ei gyhoeddi cyn diwedd mis Hydref.

4.2 Holodd Paul Loveluck ynghylch cywirdeb y cyfieithiad Cymraeg a'r broses o fewn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn ar gyfer gwirio cyfieithiadau. Ymatebodd yr Ysgrifennydd fod staff Cymraeg eu hiaith o'r ysgrifenyddiaeth yn prawfddarllen cyfieithiadau.

Soniodd Steve Halsall hefyd y gallai fod amharu ar allu staff i brawfddarllen cyfieithiadau os daw nifer fawr o sylwadau i law. Felly cynigiodd yr Ysgrifennydd drafod mater rheoli ansawdd gyda'r cyfieithwyr.

4.3 Roedd y dyddiadau ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus wedi'u diwygio gan nad oedd Geraint Walters (Comisiynydd Cynorthwyol) ar gael ganol mis Mawrth. Câi dilyniant cyfarfodydd ei addasu i gyd-fynd ag argaeleddd y Comisiynydd Cynorthwyol.

4.4 Roedd disgwyl i Robert McNabb fynd i Wrandawiad Cyhoeddus Comisiwn Lloegr ym Mryste ar 7/8 Tachwedd ac roedd disgwyl i Paul Loveluck fynd i'r Gwrandawiad yn Llwydlo ar yr un dyddiadau.

## 5. AROLWG 2013 – CYNIGION CYCHWYNNOL

5.1 Câi hysbysiadau yn ymwneud â'r cynigion cychwynnol eu gosod mewn papurau newydd lleol ym mhob etholaeth a hefyd ar wefan y Comisiwn. Byddai ASau yn cael copi ymlaen llaw (10 Ionawr 2012) cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig, sef 11 Ionawr 2012. Caiff copïau dan embargo eu rhoi i'r wasg hefyd.

5.2 Trafododd y Comisiwn nifer o gynlluniau posibl a fodlonodd ofynion Deddf 2011; enwyd 'Cynllun 5' fel y cynllun a ffafriwyd. Roedd Mr Loveluck wedi codi'r posibilrwydd o adlunio Cynllun 1 gyda'r Ysgrifenyddiaeth yn flaenorol. Tybia ei fod yn briodol iawn i dde Cymru a'i fod yn gweithio yng ngogledd Cymru er iddo achosi problemau sylweddol yng nghanolbarth Cymru. Cytunodd yr Athro McNabb ond esboniodd ei fod wedi gweithio ar y cynnig hwn gyda'r Ysgrifenyddiaeth er mwyn ceisio ymgorffori'r agweddau gorau ar Gynllun 1 a Chynllun 5. Fodd bynnag, ar ôl trafodaethau helaeth, roedd wedi dod i'r casgliad na fyddai'n gweithio. Roedd i'r cynllun broblem yn ymwneud ag etholaeth a oedd yn cynnwys Pontardawe a Cwm Cynon gyda chanolbwynt i'r dwyrain o'r etholaeth yn Aberdâr. Roedd problemau sylweddol mewn mannau eraill hefyd – er enghraifft, roedd etholaeth Carmarthenshire yn gystrawen amlwg iawn, nid oedd Ceredigion yn cynnwys Llanfair-ym-Muallt yn ddymunol a byddai'r cynllun yn rhannu Torfaen yn ei hanner. Felly cytunodd y Comisiwn nad oedd yn ddewis dichonadwy.

5.3 Cododd Mr Loveluck gwestiwn cyffredin mewn perthynas â pha bwys y dylid ei roi ar gadw'r cyfan o etholaeth sy'n bodoli eisoes mewn etholaeth newydd. Cytunodd y Comisiwn y dylid rhoi cryn bwys ar yr ystyriaeth hon fel arfer er mwyn cadw cymaint o gysondeb a dilyniant â phosibl ac i ffurfio etholaethau y mae etholwyr yn fwy tebygol o uniaethu â nhw ac sy'n parchu cysylltiadau lleol.

5.4 Trafododd y Comisiwn y cynllun roeddent yn ei ffafrio, sef 'Cynllun 5' yn fanwl er mwyn dod i gasgliad lled-derfynol ar eu cynigion cychwynnol a gâi eu cyhoeddi at ddiben ymgynghori. Trafododd y Comisiwn bob etholaeth a phob ffin yn fanwl er mwyn sicrhau bod y cynigion yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, gan fod yn addas ar gyfer anghenion lleol hefyd. Ceir nodyn am y drafodaeth yn Atodiad A.

## 6. ADRODDIAD AR GYLLIDEB

(BCW/2011/6/Papur 6)

6.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid yr adroddiad diweddaraf ar gyllideb. Sefydlwyd cyllid uniongyrchol gyda Swyddfa'r Cabinet. Roedd angen cael caniatâd o ran gwario ar hysbysebu. Roedd darpariaeth lawn wedi'i gwneud yn y gyllideb ar gyfer Arolwg 2013 a châi adroddiad cyllideb ei gyflwyno i Swyddfa'r Cabinet bob chwarter.

## 7. CYDBERTHYNAS Â'R COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

7.1 Soniodd yr Ysgrifennydd fod Swyddfa'r Cabinet yn debygol o benodi Ysgrifennydd ar wahân ar gyfer y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru ac, yn y tymor hwy, y gallai fod angen ailedrych ar y trefniadau Ysgrifenyddiaeth ddeuol bresennol. Fe allai tensiynau godi ynghylch adnoddau, o bosibl. Oherwydd y sefyllfa bresennol yn y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, roedd gwaith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a ddylai fod wedi cyrraedd ei anterth wedi dod i ben a byddai'n ailddechrau yn y Flwyddyn Newydd. Roedd y ddau Gomisiwn yn gweithio gydag un set o staff ar y cyd.

7.2 Soniodd y Comisiwn am y risg o wrthdaro o ran adnoddau staff rhwng y Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wrth i'r gwaith ar Arolwg 2013 ddatblygu. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn Seneddol ragweld eu gofynion a gweithio gyda'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i gytuno ar adnoddau. Er mwyn cynorthwyo hyn o beth, roedd yn bwysig i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd.

7.3 Awgrymodd y Comisiwn y dylai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru roi Cofrestr Risg lawn ar waith.

## 8. CYNGOR GAN FWRDD YR IAITH GYMRAEG AR GYFATHREBU ELECTRONIG (BCW/2011/6/Papur 7)

8.1 Awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd y dylid drafftio llythyr mewn ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gan ddiolch iddynt am dynnu sylw'r Comisiwn at fater cyfieithu cyfathrebu electronig a hefyd gan roi gwybod iddynt nad yw'r Comisiwn yn rhoi unrhyw beth ar ei wefan yn Saesneg nad yw'n cael ei gyhoeddi yn Gymraeg hefyd.

## 9. LOGO'R COMISIWN FFINIAU I GYMRU

9.1 Cyflwynwyd logo arfaethedig newydd i'r Comisiwn ond tybiwyd nad oedd yn dderbyniol. Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd a allai'r Comisiwn Seneddol ddefnyddio logo'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, gyda sgwariau wedi'u haddasu. Cyflwynwyd enghraifft arall ar ddiwedd y cyfarfod a dderbyniwyd yn sail i baratoi logo. Awgrymwyd y dylid ymgorffori'r porthcwlis yn y gornel uchaf ar y dde. Byddem yn cysylltu â Swyddfa'r Cabinet er mwyn dirnad p'un a fyddai hyn yn dderbyniol. **Cytunwyd** i fabwysiadu logo newydd ynghyd â chynnwys y porthcwlis ar ôl ymgynghori â Swyddfa'r Cabinet ynghylch y mater.

## 10. CYDBERTHYNAS Â'R CYFRYNGAU

10.1 Roedd profiad y Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE) o ran lansio ei gynigion cychwynnol yn un a oedd o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd a'r cyfryngau. Roedd BCE wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyfryngau ac roedd wedi rhoi cyfweliadau fel bo'n briodol. Gofynnwyd i'r Comisiynwyr ystyried p'un a ddylai'r Comisiwn fabwysiadu ymagwedd debyg a pha un a ddylid cynnal cynhadledd i'r wasg ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori cychwynnol.

10.2 Awgrymodd Paul Loveluck y dylid gwahodd y wasg i sesiwn briffio ac yna i sesiwn holi ac ateb. Roedd nifer fach o newyddiadurwyr a fyddai ynghlwm wrth ohebu ar y mater hwn. Awgrymodd Michaela Gordon, yng ngoleuni'r profiad yn Lloegr, ei fod yn hanfodol rhoi pwyslais mawr ar natur "ddrafft" y cynigion fel rhan o'r broses ymgynghorol. Mae angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r broses a pha mor anodd yr oedd. Dylai'r Comisiwn fod yn glir hefyd ei fod yn fodlon gwrando ar gynlluniau/awgrymiadau amgen. **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifenyddiaeth lunio cynigon ar gyfer sesiwn briffio i'r wasg ar 10 Ionawr 2012.

10.3 Awgrymodd Michaela Gordon y dylai'r Comisiwn ymgysylltu â Swyddog Gwasg y Gwasanaethau Ombwdsmon fel bod modd cyhoeddi datganiad ar y cyd.

10.4 Gofynnodd Paul Loveluck p'un a ddylai'r Comisiwn ddefnyddio gwasanaeth Swyddog Gwasg Cymraeg ei iaith am fis ar ôl rhyddhau'r cynigion cychwynnol. Cytunodd yr Ysgrifennydd i siarad â Swyddfa'r Cabinet am y cynnig hwn.

## 11. CYFARFODYDD RHWNG COMISIYNAU – 14/15 RHAGFYR, BELFAST
(BCW/2011/6/Papur 8)

11.1 Roedd y Dirprwy Gadeirydd yn gobeithio mynd i'r Cyfarfod Rhwng Comisiynau, os bydd ymrwymiadau eraill yn ei ddyddiadur yn caniatáu hynny. Os yw'n bosibl, byddai'r ddau Gomisiwn yn bresennol hefyd.

## 12. UNRHYW FUSNES ARALL

12.1 CWYNION CYMRU (BCW/2011/6/Papur 9). Ystyriwyd gwahoddiad a roddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gyfrannu at wasanaeth newydd ar gyfer ymdrin â chwynion yng Nghymru. Byddai'n wasanaeth cyfeirio dros y ffôn a'r we yn cynnig cyngor ar sut i gwyno ac wrth bwy i gwyno. Nid oedd y Comisiwn yn dod o dan fantell Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ond yn hytrach o dan Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd. Mae pob Comisiwn Ffiniau seneddol yn rhan o'r trefniant hwn. **Cytunwyd** y câi'r gwahoddiad ei wrthod. Byddem yn cymrud y gyfle i ddiweddaru'r weithdrefn gwynion a gâi ei mabwysiadu yn unol â rhai diwygiadau.

## 13. Y CYFARFOD NESAF

13.1 Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal am 10:30am ddydd Gwener 25 Tachwedd 2011. Rhoddwyd dyddiad pellach posibl ar gyfer cyfarfod, sef dydd Mawrth 20 Rhagfyr 2010.

**Atodiad A: Ystyriaethau Manwl 20 Hydref 2011**

1. Gorseinon yn Llanelli. Esboniodd yr Ysgrifenyddiaeth nad yw'r adran etholiadol hon yn cynnwys cymuned gyfan Gorseinon. Er mwyn symud Cymuned Gorseinon yn ei chyfanrwydd i 'Swansea West' , byddai angen symud dwy adran etholiadol. Byddai hynny'n golygu bod Llanelli islaw'r cwota etholiadol. Gellid mynd i'r afael â hynny drwy ychwanegu Mawr a Llangyndeyrn. Fodd bynnag, byddai trosglwyddo Gorseinon i 'Swansea West' yn golygu bod 'Swansea West' ymhell uwchben y cwota etholiadol ac felly byddai'n rhaid gwneud iawn am hynny. Byddai Neath yn dechrau ymylu ar Swansea. Byddai Aberavon yn cymryd Coedffranc yn ôl. Byddai Neath yn ymuno â Swansea. Y canlyniad net fyddai cadw 15 o etholaethau. Byddai'n lleihau maint Carmarthen ond nid islaw'r cwota etholiadol.

   Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch p'un a oedd yn well rhoi Gorseinon yn Llanelli neu i roi Neath yn Swansea. Daeth y cyfarfod i'r casgliad ei bod yn well gadael Gorseinon yn Llanelli. Roedd gan Orseinon ei hunaniaeth ei hun.

2. Ychwanegu'r Gellifedw at Neath. Pe câi Adran Etholiadol gyfan Llansamlet ei hychwanegu at Neath, byddai 5,000 yn ormod a byddai'n rhaid cymryd camau digolledu pellach. Ar ôl trafod, daethpwyd i'r casgliad bod yr anfanteision yn fwy na'r manteision. Soniwyd hefyd fod yr ardal hon i'r gogledd o draffordd yr M4 ac felly roedd yn gyfleus ei gadael fel yr oedd yng Nghynllun 5a. Roedd yr un ystyriaethau'n berthnasol mewn perthynas â Chlydach sydd unwaith eto i'r gogledd o draffordd yr M4.

3. Pontyclun yn 'West Cardiff'.
   Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd p'un a fyddai'n bosibl trosglwyddo Pontyclun i Bontypridd. Mae o fewn etholaeth Pontypridd ar hyn o bryd. Esboniodd yr Ysgrifenyddiaeth y gellid gwneud hyn gan adael Pontypridd o fewn y cwota etholiadol. Fodd bynnag, yna byddai 'West Cardiff' islaw'r cwota etholiadol.

   Cafwyd trafodaeth hirfaith ynghylch pa ardaloedd y gellid eu symud i 'West Cardiff' er mwyn gwneud iawn am hyn. Ystyriwyd Yr Eglwys Newydd neu Dongwynlais neu'r ddau. Fodd bynnag, ni weithiodd.

   Ystyriodd y cyfarfod yr holl ddewisiadau posibl eraill o ran digolledu 'West Cardiff' am golli Pontyclun ond y gwir amdani yw nad oedd y rhifau'n gweithio.

4. Caerphilly and Cardiff North.
   Roedd rhywfaint o bryder ynghylch y cynnig hwn. Amlygwyd bod mynydd yng nghanol yr etholaeth. Fodd bynnag, mae cysylltiadau ffordd a rheilffordd rhwng Caerdydd a Chaerffili, ond yr A470 yw'r cyswllt ffordd orau.

   Fe wnaeth yr Ysgrifenyddiaeth atgoffa'r cyfarfod bod cynllun ar gyfer Caerdydd yng Nghynllun 4, a allai fod yn well, o'i ystyried ar sail ei rinweddau unigol. Fodd bynnag, roedd hwnnw wedi'i wrthod oherwydd ei effaith ar Flaenau'r Cymoedd.

   Fe wnaeth y cyfarfod ganfasio ac ystyried pob posibilrwydd arall.

Y casgliad cyffredinol oedd bod y cynnig ymhell o fod yn berffaith ond nad oedd unrhyw ddewis amgen ymarferol ac y dylid ei adael.

5. Rogerstone yn Islwyn South.
Etholaeth o siâp rhyfedd ydyw ond nid yw'n effeithio ar y cysylltiadau ffordd. Mae siâp yr etholaeth yn cyd-fynd â rhwydwaith y ffordd. Mae hefyd yn dilyn Cwm Sirhywi. Ni fyddai'n bosibl cael gwared ar Rogerstone.

Roedd y cyfarfod yn fodlon ar y cynnig.

6. Nid yw ward Y Rhondda o fewn Pontypridd yn etholaeth Y Rhondda. Seiliwyd hyn ar gamddealltwriaeth. Mae'r ward hon yn rhan annatod o Bontypridd a dylai fod yn etholaeth Pontypridd.

7. Rhondda and Cynon Valleys.
Ystyriodd y cyfarfod broblemau'n ymwneud â chysylltiadau ffordd rhwng y ddau gwm. Mae'r unig ffordd "A" wrth ffin ogleddol yr etholaeth arfaethedig.

Awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd fod Cymer yn fwy priodol yn etholaeth Y Rhondda yn hytrach nac yn etholaeth Pontypridd. Byddai'n bosibl digolledu Pontypridd drwy ychwanegu Abercynon neu Ynysybwl neu'r ddau at Bontypridd.

Mae'r cynnig yn lleihau anawsterau cysylltiadau â'r dwyrain / gorllewin o ganlyniad gan fod y ffordd A rhwng y ddau gwm i'r gogledd o'r etholaeth.

8. Blackwood yn Blaenau Gwent.
Nid ystyriwyd hyn yn broblem.

9. Caerleon yn Torfaen. 6,889 yw etholaeth Caerleon. Ystyriodd y cyfarfod fod yn rhaid i Fetws a Malpas fod yn Newport. O ganlyniad, nid oedd yn bosibl integreiddio Caerllion â Chasnewydd neu Sir Fynwy. Bydd y cynnig yn aros fel y mae ar hyn o bryd.

Yna trodd y cyfarfod at ystyried yr etholaethau eraill yng Nghynllun 5.
Roedd y cyfarfod yn fodlon ar y cynnig gyda Cheredigion yng Nghynllun 5b.

Yr etholaethau sy'n cyfuno Merthyr Tudful, Rhymni ac Aberdâr. Mae cysylltiadau ffordd da.
Roedd y cyfarfod yn fodlon ar hyn.

Brecon and Radnorshire and Montgomeryshire. Roedd Mr Lovelock yn pryderu ynghylch safle Forden. Ar ôl trafod, penderfynwyd ychwanegu Forden at Brecon and Radnorshire. O gyfrifo'n fras, byddai hyn yn golygu bod Brecon and Radnorshire 2.3% uwchben y cwota etholiadol a byddai Glyndŵr 3% islaw. Ni chrëodd unrhyw anhawster mewn perthynas ag etholaethau neu awdurdodau sy'n bodoli eisoes.
Penderfynwyd y dylid ychwanegu Foren at Brecon and Radnorshire .

10. Gwynedd.
Mae hyn yn cynnwys Caernarfon. Roedd 4.8% islaw'r cwota etholiadol. Roedd hyn yn ddymunol gan ei bod yn etholaeth mor fawr o ran arwynebedd.

Ystyriwyd bod hyn yn ateb priodol.

11. Ynys Môn.
Roedd adrannau etholiadol Bryn a Pandy wedi'u symud i'r etholaeth hon. Roedd hyn yn gwneud synnwyr gan eu bod ar ochr orllewin y mynydd.

12. Colwyn and Conwy Bays.
Mae hyn 2.6% uwchben y cwota etholiadol ond yn gryno ar gyfer gogledd Cymru.

13. Flintshire.
Roedd y cyfarfod yn fodlon ar y cynigion.

14. Wrexham Maelor.
Yma roedd y cynnig yn torri adrannau etholiadol er mwyn cadw cymunedau cyfan ac i aros o fewn yr adran etholiadol.
Roedd y cyfarfod yn fodlon.

15. Glyndwr and North Montgomeryshire.
Roedd hyn ryw 2% islaw'r cwota etholiadol.
Roedd y cyfarfod yn fodlon.

Yna ystyriodd y cyfarfod Cynllun 5a yn gyffredinol gyda'r diwygiadau ar gyfer Ceredigion (5b), Pontypridd / Rhondda, and Brecon and Radnorshire / Glyndŵr and North Montgomeryshire.
Mae 6 o'r 7 awdurdod unedol wedi'u cadw o fewn yr etholaethau newydd.
Mae 15 o'r etholaethau presennol wedi'u cadw yn gyfan gwbl mewn etholaethau newydd.

Mabwysiadwyd y cynigion fel cynigion cychwynnol y Comisiwn.

16. Yna ystyriodd y cyfarfod gwestiwn enwau. Ar ôl cryn drafod, cytunwyd lle bod mwy nag un lle o fewn enw etholaeth y byddai'r Comisiwn yn addasu polisi gwyddoroli. Mabwysiadodd y Comisiwn y canlynol fel ei gynigion cychwynnol (teitl gwaith yr Ysgrifenyddiaeth o Gynllun 5a yn ymddangos gyntaf gyda'r enw mabwysiedig yn dilyn):

1. Pembrokeshire - South and West Pembrokeshire CC.
2. Ceredigion - Ceredigion and North Pembrokeshire CC.
3. Carmarthenshire - Caerfyrddin CC.
4. Llanelli and Pontardulais - Loughor CC.
5. Swansea West and Gower - Gower and Swansea West CC.
6. Swansea East - Swansea East BC.
7. Neath - Neath CC.
8. Aberavon and Ogmore - Aberavon and Ogmore CC.

9. Bridgend - Bridgend CC.
10. The Vale of Glamorgan - The Vale of Glamorgan CC.
11. Cardiff South and Penarth - Cardiff Central and Penarth BC.
12. Cardiff East - Cardiff East BC.
13. Cardiff West - Cardiff West CC.
14. Caerphilly and Cardiff North - Caerphilly and Cardiff North CC.
15. Pontypridd - Pontypridd CC.
16. Rhondda and Cynon - Rhondda CC.
17. Aberdare, Merthyr Tydfil and Rhymney - Heads of the Valleys CC.
18. Blaenau Gwent and Islwyn North - Blaenau Gwent CC.
19. Torfaen - Torfaen CC.
20. Monmouthshire - Monmouthshire CC.
21. Newport - Newport Central BC.
22. Islwyn South - Newport West and Sirhowy CC.
23. Brecon and Radnorshire - South Powys CC.
24. Glyndwr and North Montgomeryshire - Glyndwr and North Powys CC.
25. Gwynedd - Gwynedd CC.
26. Ynys Môn and Menai - Menai ac Ynys Môn CC.
27. Colwyn and Conwy Bays - Llandudno CC.
28. Alyn and Deeside - Alyn and Deeside CC.
29. Dee Estuary - Dee Estuary CC.
30. Wrexham Maelor - Wrexham Maelor CC.

Gofynnwyd y dylai'r cofnodion adlewyrchu'r anawsterau y mae'r Comisiwn wedi'u cael o ran sicrhau cydbwysedd rhwng niferoedd etholaethau.

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 10:30am, ddydd Gwener **25 Tachwedd 2011**.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr Steve Halsall | Ysgrifennydd Dros Dro |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mrs Alison Davies | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr David Williams | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr Ben Whitestone | Penodai Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru (yn arsylwi) |
| Ms. Michaela Gordon | Aseswr, Yr Arolwg Ordnans |

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfodd drwy fynegi ei werthfawrogiad a'i ddiolchgarwch am y cyfraniad enfawr a wnaed at y Comisiwn Seneddol dros y blynyddoedd gan y cyn Ysgrifennydd, Edward Lewis, a oedd wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad.

1.2 Roedd yn bleser mawr gan y Dirprwy Gadeirydd groesawu Ben Whitestone i'r cyfarfod, a fyddai'n dechrau yn ei rôl fel Ysgrifennydd ar 19 Rhagfyr 2011. Croesawodd Steve Halsall benodiad Ben Whitestone hefyd.

1.3 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 HYDREF 2011
(BCW/2011/8/Papur 1)

3.1 Cafodd adolygiad o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

3.2 Ni châi nodyn llawn a manwl o'r newidiadau i'r etholaethau ei gynnwys yn y cofnodion ond câi ei gyhoeddi fel atodiad ar wahân. Câi'r cofnodion eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn maes o law.

## 4. MATERION YN CODI ERS Y CYFARFOD AR 20 HYDREF 2011
(BCW/2011/8/Papur 2)

4.1 Penderfynwyd y dylid llunio Cofrestr Risg o fewn chwe mis.

4.2 Logo'r Comisiwn Ffiniau i Gymru – Soniwyd bod Swyddfa'r Cabinet wedi cynghori'r Comisiwn na ddylai ddefnyddio'r symbol porthcwlis ar ei logo newydd. Felly cafodd y logo a gyflwynwyd i'r cyfarfod ei gymeradwyo.

4.3 Cysylltiadau â'r cyfryngau – dywedodd Matthew Redmond ei fod yn gobeithio y câi Swyddog y Wasg ei secondio i'r Comisiwn am dri mis ac y byddai'n dechrau o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Roedd hi'n gweithio gyda'r Comisiwn Ffiniau i Loegr ar hyn o bryd yn gwneud gwaith tebyg.

## 5. ADRODDIAD AR Y CYNIGION CYCHWYNNOL
(BCW/2011/8/Papur 3)

5.1 Roedd yr adroddiad ar y Cynigion Cychwynnol eisoes wedi'i adolygu gan y Dirprwy Gadeirydd a'r Comisiynwyr, a oedd wedi cyflwyno diwygiadau arfaethedig.

5.2 Cafodd yr adroddiad/diwygiadau eu darllen yn drwyadl a chymeradwywyd newidiadau drafftio sylweddol.

5.3 Roedd disgwyl i'r adroddiad ar Gynigion Cychwynnol gael ei ddiwygio cyn gynted â phosibl a chael ei anfon at y Dirprwy Gadeirydd a'r Comisiynwyr i gael ei gymeradwyo'n derfynol. Câi copi ei anfon at Gyfreithiwr y Trysordy hefyd er mwyn iddo ei wirio am y tro olaf.

## 6. GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS
(BCW/2011/8/Papur 4)

6.1 Rhoddodd David Williams adroddiad wedi'i ddiweddaru ar y lleoliadau/trefniadau ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus.

6.2 Mynegodd Paul Loveluck bryder, o dan y trefniadau arfaethedig, na châi amser ei ddyrannu i bleidiau gwleidyddol er mwyn iddynt roi eu sylwadau hyd nes y gwrandawiad cyhoeddus terfynol. Cytunodd y Dirprwy Gadeirydd a Matthew Redmond i gyfarfod â Gerard Elias (Comisiynydd Cynorthwyol) i drafod hyn ymhellach. Awgrymodd y Comisiwn y dylid rhoi 30 munud i bob plaid ar gyfer eu cyflwyniad ar ddechrau'r gwrandawiad cyhoeddus yn Abertawe.

6.3 Roedd angen penderfyniad ar sut i ymdrin â'r wasg ac ymholiadau. Awgrymwyd y dylid cynnal cynhadledd i'r wasg ar 10 Ionawr 2012, cyn cyhoeddi ar 11 Ionawr. I gydbwyso, nid oedd y Comisiwn wedi'i argyhoeddi bod angen y gynhadledd i'r wasg, ond efallai y gellid dosbarthu nodyn briffio i'r wasg, gyda chyhoeddiad i'r wasg yn Gymraeg a Saesneg o dan embargo.

6.4 Gofynnodd y Comisiwn am y posibilrwydd o fynd at Swyddfa'r Cabinet gyda chais am gymorth ar gyfer cysylltiadau â'r cyfryngau Cymraeg. Soniwyd os na allai Swyddfa'r

Cabinet roi cymorth yn hyn o beth, y byddai angen i'r Comisiwn gymryd camau ei hun i sicrhau bod cymorth llawn ar gael o ran cyfathrebu dwyieithog.

6.5 Cafodd y cyfarfod wybod bod Robert McNabb, Matthew Redmond a nifer o staff eraill yr ysgrifenyddiaeth wedi mynd i wrandawiad cyhoeddus y Comisiwn Ffiniau i Loegr ym Mryste. Roedd Paul Loveluck wedi mynd i wrandawiad o'r Comisiwn Ffiniau i Loegr yn Llwydlo. Yn y gwrandawiadau, roedd taflenni gwybodaeth, copïau o'r cynigion a'r llyfryn gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Cynhaliodd y cyfryngau gyfweliadau y tu allan i leoliad y gwrandawiad.

## 7. UNRHYW FUSNES ARALL

7.1 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi gofyn beth fyddai eu hamser paratoi disgwyliedig. Cytunwyd y byddai hyn yn unol â'u disgresiwn nhw.

## 8. Y CYFARFOD NESAF

8.1 Ni threfnwyd cyfarfod ar gyfer mis Rhagfyr. Awgrymwyd cyfarfod arfaethedig am 10:30am, ddydd Gwener 27 Ionawr 2012. Pe bai angen cyfarfod ym mis Rhagfyr, câi rhybudd digonol ei roi.

BCW/2012/Cyfarfod 1af

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 10.30 am, ddydd Gwener, 3 Chwefror 2012.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh. Mr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr Ben Whitestone | Ysgrifennydd |
| Mr Steve Halsall | Dirprwy Ysgrifennydd |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mrs Alison Davies | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms Michaela Gordon | Asesydd, yr Arolwg Ordnans |

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni chafodd unrhyw fuddiannau newydd eu datgan.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

20 Hydref 2011 - BCW/2012/1/Papur 1
25 Tachwedd 2011 – BCW/2012/1/Papur 2
3 Ionawr 2012 – BCW/2012/1/Papur 3

3.1 Cytunodd y Dirprwy Gadeirydd a'r Ysgrifennydd i ystyried cofnodion cyfarfodydd blaenorol er mwyn paratoi fersiynau terfynol i'w cyhoeddi.

3.2 Byddai'r nodiadau am drafodaethau manwl ynglŷn â chynigion penodol yn cael eu tynnu o'r cofnodion a'u cynnwys fel atodiadau ar wahân.

3.3 Adolygwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Hydref, 25 Tachwedd a 3 Ionawr ac fe'u cymeradwywyd ar ôl cywiro bwyntiau drafftio mân.

## 4. ADRODDIAD AM GYNNYDD

(BCW/2012/1/Papur 4)

4.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd fraslun o'r cynnydd ers y cyfarfod diwethaf parthed Arolwg 2013. Cyhoeddwyd y cynigion cychwynnol ar 11 Ionawr a chafwyd cryn ddiddordeb gan Aelodau Seneddol, pleidiau gwleidyddol, y cyfryngau a'r cyhoedd. Gweithiodd yr

Ysgrifenyddiaeth yn galed iawn i gwblhau'r cynigion a'u dosbarthu ar bapur ar ar-lein. Ym mis Ionawr, cafodd gwefan y Comisiwn 10 gwaith yn fwy o ymweliadau na'r hyn a geir mewn mis arferol.

4.2 Nododd y Comisiwn yr ymateb ffafriol a gafwyd gan sylwebwyr allweddol ar y cyfan a fyddai, gyda lwc, yn arwain at ymgynghoriad adeiladol.

4.3 Diolchodd y Comisiynwyr yr holl staff am eu gwaith caled wrth baratoi'r cynigion cychwynnol a'u lansio.

4.4 Amlinellodd yr Ysgrifennydd yn gryno'r prif themâu oedd yn dod i'r amlwg parthed yr ymgynghoriad â'r cyhoedd. Hyd yma, roedd yr ymateb mwyaf wedi dod ynglŷn â chynigion y Comisiwn ar gyfer de-ddwyrain Cymru, yn enwedig Cynon Valley, Caerphilly and Cardiff North, a Newport West and Sirhowy Valley newydd. Roedd sawl gwrthgynnig wedi'u derbyn a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn i'w hystyried maes o law.

4.5 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi'u hysbysu am yr ymatebion oedd yn dod i'r amlwg er mwyn iddynt baratoi ar gyfer y drafodaeth debygol yn ystod yr ymgynghoriadau cyhoeddus.

4.6 Roedd Hysbysiadau Cyhoeddus i gyhoeddi pob gwrandawiad cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yn y cyfryngau lleol bythefnos cyn pob gwrandawiad. Byddai'r amserlen ar gyfer pob gwrandawiad wedyn yn cael ei phennu (cymaint ag y bo modd) wythnos cyn pob gwrandawiad. Cytunodd y Comisiwn y byddai amserlen o siaradwyr ar gyfer pob gwrandawiad yn cael ei chyhoeddi ar y wefan. **Cam: Steve Halsall.**

4.7 O ran y polisi ynglŷn â sylw'r cyfryngau mewn gwrandawiadau cyhoeddus, byddai croeso i'r cyfryngau fynd i'r gwrandawiadau ond ni chaniateir unrhyw recordio yn ystod y gwrandawiad ei hun rhag ofn y byddai hynny'n peri i'r cyhoedd fod yn amharod i gyflwyno eu cynrychiolaethau. Fodd bynnag, mae'r cyfryngau yn cael recordio'r lleoliad i 'osod y cyd-destun' os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Byddai Ben Whitestone a Matthew Redmond hefyd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau gan y cyfryngau cyn pob gwrandawiad. Roedd Gerard Elias, y Comisiynydd Cynorthwyol arweiniol, yn fodlon ar y polisi hwn.

4.8 Byddai'r Cynllun Cyfathrebu ar gyfer yr ail gyfnod ymgynghori, ac unrhyw ymgynghori am gynigion diwygiedig, yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn maes o law.

## 5. ADRODDIAD BLAENGYNLLUNIO
(BCW/2012/1/Papur 5)

5.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd fraslun o'r Blaengynllun sy'n amlinellu'r tasgau a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer Arolwg 2013 yn ystod 2012.

5.2 Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi yn y cynllun:
- bwriedir cynnal yr ail gyfnod ymgynghori ddiwedd mis Mai a dechrau mis Mehefin 2012
- byddai'r Comisiwn yn ystyried cynrychiolaethau ac adolygiadau yn ystod mis Awst a mis Medi

- bwriedir cynnal unrhyw ymgynghoriad am argymhellion diwygiedig cyn Nadolig 2012

5.3 Roedd y Comisiwn yn cydnabod y peryglon oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r cynllun - er enghraifft yr amserlen ar gyfer cyfieithu, golygu a chyhoeddi ymatebion o'r cyfnod ymgynghori cychwynnol - ond roeddent yn fodlon bod y blaengynllun yn briodol a bod modd ei gyflawni.

5.4 Caiff fersiwn electronig o'r blaengynllun ei hanfon i'r Comisiwn **Cam: Ben Whitestone.**

## 6. GOHEBIAETH GYDA BWRDD YR IAITH GYMRAEG

(BCW/2012/1/Papur 6)

6.1 Eglurodd yr Ysgrifennydd bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi anfon llythyr ynglŷn ag enwau'r etholaethau a'r ffaith mai un enw oedd wedi'i gynnig yn hytrach nag enw Cymraeg a Saesneg. Roedd ymateb arfaethedig wedi'i ddrafftio oedd yn nodi'r cefndir deddfwriaethol yn ogystal â pholisi anffurfiol, ond cyson, y Comisiwn ar gyfer enw'r etholaethau.

6.2 Cymeradwyodd y Comisiwn yr ymateb draft ar ôl gwneud rhai newidiadau drafftio a chael sêl bendith terfynol y Dirprwy Gadeirydd parthed y fersiynau Cymraeg a Saesneg. **Cam: Ben Whitestone.**

## 7 CYFLWYNIADAU YN Y GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS

7.1 Roedd y Comisiwn wedi cael copi o gyflwyniad drafft Gerard Elias yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Cafodd ei ystyried a'i gymeradwyo ar ôl gwneud newidiadau mân. Awgrymodd y Comisiwn y dylai copïau o'r cyflwyniad hwn fod ar gael yn y gwrandawiadau rhag ofn na fydd y rhai fydd yno'n bresennol drwy'r dydd.

7.2 Gwrandawyd ar Ben Whitestone a Matthew Redmond yn darllen y cyflwyniadau a fyddai'n dechrau pob gwrandawiad cyhoeddus. Gwnaeth y Comisiwn newidiadau fân ond roeddent yn fodlon bod y cyflwyniadau hyn yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth ac yn adlewyrchu cynigion cychwynnol y Comisiwn.

## 8. UNRHYW FATER ARALL

8.1 Dim

## 9. CYFARFOD NESAF

9.1 Cafodd dydd Gwener, 4 Mai 2012, ei gynnig fel dyddiad y cyfarfod nesaf. Cynigiwyd dydd Gwener, 11 Mai, fel dyddiad arall hefyd.

9.2 Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ddiwedd mis Mehefin neu fis Gorffennaf. Cynigiwyd 29 Mehefin fel dyddiad a chytunodd y Comisiwn i gadarnhau eu bod ar gael.

9.3 Bydd dau gyfarfod yn cael eu trefnu ar gyfer mis Medi 2012 i allu ystyried y cynigion diwygiedig yn llawn. Dylai'r cyfarfod cyntaf ym mis Medi fod yn ddigwyddiad deuddydd a chynigiwyd iddo gael ei gynnal ddydd Iau 6 a dydd Gwener 7 Medi. Bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod hwn.

BCW/2012/2il Gyfarfod

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas Sant Andreas, Caerdydd am 9.30am, ddydd Gwener, 4 Mai 2012.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh. Mr Justice Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr Ben Whitestone | Ysgrifennydd |
| Mr Steve Halsall | Dirprwy Ysgrifennydd |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mrs Alison Davies | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms Michaela Gordon | Asesydd, yr Arolwg Ordnans |

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni chafodd unrhyw fuddiannau newydd eu datgan.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

Gofynnwyd am ddau newid bach i'r cofnodion blaenorol ym Mhwynt 6.1 a 9.3. Ar ôl ymgorffori'r newidiadau, llofnodwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4. ADRODDIAD AM GYNNYDD

(BCW/2012/2/Papur 2)

4.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd fraslun o'r cynnydd ers y cyfarfod diwethaf parthed Arolwg 2013. Daeth y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ben ar 4 Ebrill; derbyniwyd dros 500 o gynrychiolaethau ysgrifenedig a gwrandawodd y Comisiynwyr Cynorthwyol ar sylwadau dros 100 o bobl yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Roedd y rhan fwyaf o'r cynrychiolaethau'n ymwneud â Montgomeryshire, South and West Pembrokeshire, Cynon Valley a Caerphilly and Cardiff North. Derbyniwyd deiseb gyda 3,500 o lofnodion arno ynghylch Cynon Valley.

4.2 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Ysgrifenyddiaeth wedi cynnal cyfarfod i drafod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

4.3 Dywedodd Matthew Redmond fod y cyhoedd yn ogystal â'r pleidiau gwleidyddol wedi cyflwyno cynigion amgen llawn. Bydd y Comisiwn yn ystyried pob cynrychiolaeth yn

gyfartal a dylai'r adroddiad diwygiedig amlinellu, fel y bo'n briodol, brif themâu'r cynlluniau amgen yn ogystal â barn ynglŷn â'u manteision a'u hanfanteision.

4.4 Rhoddodd Matthew Redmond fraslun o'r prif feysydd lle mae anghytuno. Bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn ym mis Medi.

4.5 Roedd y Comisiynwyr am ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled yn y gwrandawiadau cyhoeddus ac yn y swyddfa.

4.6 Pwynt 8 (Enwau Cymraeg yr etholaethau)
Roedd Cyfreithiwr y Trysorlys wedi rhoi cyngor am roi enwau Cymraeg i etholaethau, ond mae angen mwy o gyngor gan Swyddfa'r Cabinet.

4.7 Pwynt 9a (Risgiau Lefel Uchel – Symud Swyddfa)
Rhoddodd y Dirprwy Ysgrifennydd fraslun o'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r swyddfa.

4.8 Bydd cytundeb les y Comisiwn yn Nhŷ Caradog yn dod i ben ddiwedd mis Medi 2012; hwyrach y bydd modd ymestyn y les am gyfnod byr, ac mae lleoliadau eraill ar gyfer ein swyddfeydd wedi eu trafod. Mae cyfarfod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol wedi'i drefnu ar gyfer 17 Mai lle caiff yr achos busnes ynglŷn â'r posibilrwydd o symud ei drafod.

4.9 Amlygodd y Comisiwn yr angen i nodi adegau rhydd yn yr amserlen waith dros y flwyddyn nesaf pryd y gallem symud ond heb beryglu'r terfyn amser. Pwysleisiodd y Dirprwy Gadeirydd fod angen i'r Comisiwn gydymffurfio â'r amserlen statudol a bod yn gadarn ynghylch ei sefyllfa. Ni all yr Ysgrifenyddiaeth ystyried symud ar rai adegau o'r amserlen waith, Cytunodd yr Ysgrifennydd i amlinellu sefyllfa'r Comisiwn yn ffurfiol mewn llythyr i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Dywedodd y Dirprwy Ysgrifennydd y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr achosion busnes a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. **Cam: Ben Whitestone**

4.10 Pwynt 9b (Trawsgrifiadau a chyfieithiadau o gynrychiolaethau)
Roedd pob trawsysgrif a chyfieithiad wedi'u derbyn ac roedd Rachel Williams (Swyddog yr Arolwg) yn eu gwirio.

4.11 Soniodd y Dirprwy Gadeirydd am risg bellach gan ei fod wedi'i benodi'n Gadeirydd Comisiwn y Gyfraith a'i fod o bosibl yn mynd i ddechrau yn ei swydd ym mis Awst. Byddai hefyd yn dod yn Aelod o'r Llys Apêl. Gan fod yn rhaid i Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau fod yn Farnwr Uchel Lys, ni fyddai'r Dirprwy Gadeirydd yn gallu parhau yn ei swydd ar ôl cael ei ddyrchafu i'r Llys Apêl. Roedd Swyddfa'r Cabinet eisoes yn ymwybodol o hyn a bod angen penodi olynydd. Gyda lwc, bydd modd penodi rhywun cyn gynted â phosibl er mwyn gallu trefnu cyfnod o gysgodi.

Cafodd y Dirprwy Gadeirydd ei longyfarch gan y Comisiynwyr.

## 5. CYNLLUNIAU AR GYFER YR AIL GYFNOD YMGYNGHORI AMSERU AC ANAWSTERAU

(BCW/2012/2/Papur 3)

5.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd fraslun o'r cynllun arfaethedig ar gyfer ail gyfnod ymgynghori Arolwg 2013.

5.2 Trafododd y Comisiwn gynlluniau ar gyfer gwefan newydd arfaethedig. Argymhellodd yr Ysgrifennydd y dylid symud i wefan newydd cyn dechrau'r ail gyfnod ymgynghori gan fod angen llwyfan mwy cadarn, cynaliadwy, proffesiynol a haws ei ddefnyddio.
**Cam: Cytunodd y Comisiynwyr i roi'r wefan newydd ar waith ar gyfer yr ail gyfnod ymgynghori ac roeddent am ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth wrth ddatblygu'r wefan.**

5.3 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd bapur ychwanegol (Polisi ar gyfer cyhoeddi cynrychiolaethau copi caled). Ystyriwyd tri dewis, eu hargraffu'n llawn a'u rhoi mewn 50 man casglu, argraffu rhan fechan ohonynt a'u rhoi mewn 30 man casglu, neu eu cyhoeddi'n electronig yn unig. Cytunodd y Comisiynwyr y dylai pob un o'r 50 man casglu blaenorol gael copïau caled gan nad oes cyfrifiadur ar gael ym mhobman gan fod y Comisiwn am wneud yn siŵr bod y cyhoeddiadau ar gael cymaint â phosibl.
**Cam: Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu bod y cyhoeddiadau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer pob un o'r 50 man casglu.**

**CYNLLUN CYFATHREBU**
(BCW/2012/2/Papur 4)

5.4 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gynllun Cyfathrebu ar gyfer Arolwg 2013 sy'n amlinellu'r strategaeth gyfathrebu gyffredinol ac yn disgrifio gweithgareddau cyfathrebu penodol. Awgrymwyd rhai mân newidiadau i Fframwaith y Rhanddeiliaid a'r deunydd cyfathrebu penodol. Gofynnodd Paul Loveluck am i gopi o'r cylchlythyr (sy'n cyhoeddi'r ail gyfnod ymgynghori) a llythyr eglurhaol gael eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg, er gwybodaeth iddi.

## 6 COFRESTR RISGIAU

6.1 Adolygodd y Comisiynwyr y Gofrestr Risgiau.
**Cam: Cytunodd y Comisiynwyr i fabwysiadu'r Polisi Rheoli Risgiau fel y ddisgrifiwyd.**

6.2 Dylai'r Comisiynwyr adolygu'r gofrestr risgiau lawn ddwywaith y flwyddyn, ond dylid amlygu unrhyw risgiau 'o bwys' ym mhob cyfarfod. Dylid ychwanegu risg ynghylch y posibilrwydd nad yw Comisiynwyr ar gael - salwch, methu dod i gyfarfodydd, ac ati.
**Cam: Cytunodd yr Ysgrifennydd i ystyried y cworwm sydd ei angen i gymeradwyo adroddiadau'r Comisiwn.**

## 7. CYNLLUN BUSNES 2012/2013 ac ADRODDIAD BLYNYDDOL 2011/2012

7.1 Adolygodd y Comisiynwyr ddrafft y Cynllun Busnes a'r Adroddiad Blynyddol. Cynigiwyd sawl diwygiad/newid ar gyfer drafftio.
**Cam: Ben Whitestone i ddiwygio'r Cynllun Busnes a'r Adroddiad Blynyddol.**

## 8. UNRHYW FATER ARALL

9.1 Rhoddodd y Dirprwy Ysgrifennydd y wybodaeth ddiweddaraf am faterion y Comisiwn Ffiniau, gan gynnwys penodi dau Gomisiynydd newydd.
**Cam: Ben Whitestone i hysbysu Swyddfa'r Cabinet am y newidiadau hyn.**

9.2 Cynigiwyd dyddiad cyfarfod nesaf y Comisiwn:
10:30am dydd Gwener 27 Gorffennaf 2012

9.3 Cynigiwyd y dylid gwahodd Alison Whitworth, fel Asesydd SYC, i'r cyfarfod hwn.
**Cam: Ben Whitestone i anfon gwahoddiad.**

Cynhelir cyfarfod deuddydd ar 6 neu 7 Medi i drafod cynigion diwygiedig.

Awgrymwyd cynnal cyfarfod arall ddydd Gwener 28 Medi i gwblhau'r cynigion diwygiedig.

BCW/ 2012/ 4ydd Cyfarfod

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Plas St Andreas, Caerdydd, am 10:00am, dydd Gwener 27 Gorffennaf 2012.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh Meistr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr Ben Whitestone | Ysgrifennydd |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth |
| Mr Ralph Handscomb | Ysgrifenyddiaeth |
| Ms Michaela Gordon | Asesydd, yr Arolwg Ordnans |
| Ms Alison Whitworth | Asesydd, Swyddfa Ystadegau Gwladol |

**1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU O FUDDIANT**

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

**2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**3. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL**

3.1 Gofynnwyd am un newid bach i'r cofnodion blaenorol, ar Bwynt 4.11. Ar ôl gwneud y newid, y cofnodion i'w llofnodi fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3.2 Roedd Pwynt 6.2 o'r cofnodion yn gofyn am eglurhad o'r cworwm sydd ei angen i'r Comisiwn weithredu. Cadarnhawyd y bydd dau aelod yn creu cworwm.

3.3 Gofynnodd y Comisiwn fod 'rheolau sefydlog' yn cael eu datblygu ar gyfer y Comisiwn. **GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i ddrafftio 'rheolau sefydlog' a'u cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol i'r Comisiwn eu cymeradwyo.**

4. **ADRODDIAD CYNNYDD** (BCW/ 2012/ 3/ Papur 2)

4.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd drosolwg o gynnydd gydag Arolwg 2013 ers y cyfarfod blaenorol. Daeth yr ail gyfnod ymgynghori i ben ar 10 Gorffennaf, derbyniwyd dros 200 o gynrychiolaethau ysgrifenedig a deisebau a oedd yn ymateb sylweddol o gymharu â'r gyfran o gynrychiolaethau a dderbyniwyd gan gomisiynau ffiniau eraill y Deyrnas Unedig. Roed y nifer fwyaf o gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ymwneud â chynigion ynglŷn â Thre-gŵyr, ac yna'r Eglwys Newydd yng Nghaerdydd. Nodwyd y gefnogaeth ar gyfer etholaeth North Wales Coast y Comisiwn, a derbyniwyd llai o gynrychiolaethau

o etholaeth Cynon Valley nag yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Eto, roedd nifer o gynrychiolaethau'n ymwneud â chynigion y Comisiwn ar gyfer Montgomeryshire.

4.2 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Ysgrifenyddiaeth i drafod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

4.3 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau o'r ail gyfnod ymgynghori, a byddent yn cyfarfod yn swyddfeydd y Comisiwn ar 30 Gorffennaf i drafod eu syniadau diweddaraf a'u hadroddiad drafft. Roedd yr Adroddiad terfynol i'w gyflwyno ar 10 Awst 2012. **GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gylchredeg adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r Comisiynwyr cyn gynted â'i fod ar gael.**

4.4 **Pwynt 9.a (enwau etholaethau Cymraeg)**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg a oedd yn ailddatgan gohebiaeth flaenorol oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn awgrymu fod y grym gan y Comisiwn, a rhwymedigaeth gyfreithiol, i ddarparu cyfieithiadau Cymraeg ar gyfer enwau etholaethau yn Saesneg. Gofynnwyd am arweiniad pendant ar y mater hwn oddi wrth Swyddfa'r Cabinet. Roedd y Comisiwn yn cydnabod yr angen i benderfynu ar bolisi enwi etholaethau cyn gynted ag y bo modd.

4.5 **Pwynt 9.b (Staffio)**
Nodwyd y goblygiadau i staffio a allai godi yn sgil Papur Gwyrdd Swyddfa Cymru (trafodwyd o dan eitem 6) a theimlwyd eu bod yn gyson â'r rheiny'n ymwneud â Phapur Gwyn y Llywodraeth ar drefniadau arolygon llywodraeth leol. Nododd y Comisiwn fod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru wrthi'n cael ei ddatblygu. Gobeithiwyd y byddai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn rhoi eglurder ynghylch yr ymagwedd ar y cyd at gytuno staffio yn yr Ysgrifenyddiaeth.

Nododd y Comisiwn fod Alison Davies a David Williams wedi gadael yr Ysgrifenyddiaeth erbyn hyn, ac roedd yn dymuno cofnodi ei ddiolch am eu cyfraniadau sylweddol.

4.6 **Pwynt 10 (Risgiau Lefel Uchel – Symud Swyddfa)**
Rhoddodd yr Ysgrifennydd drosolwg byr o'r sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud ag adeilad y swyddfa. Roedd yn debygol y byddai'r Ysgrifenyddiaeth ar y cyd yn symud swyddfeydd ym mis Rhagfyr 2012 - er bod statws ymestyn y brydles yn Nhŷ Caradog am dri mis yn unig heb ei gadarnhau o hyd. Byddai rhywfaint o gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r symud, gydag o leiaf un mis o orgyffwrdd o ran costau adeiladau, sef y cyfnod pan fyddai'r ôl-troed TG yn cael ei sefydlu yn yr adeilad newydd. Roedd Swyddfa'r Cabinet wedi cadarnhau fod hyn yn dderbyniol, ac yn wir yn well na gorfodi symud swyddfa yn ystod mis Medi. Roedd yr amserlen hon yn lleddfu pryderon ynghylch y gwaith paratoi ar gyfer cyhoeddi'r cynigion diwygiedig a'r cyfnod cynrychiolaethau wyth wythnos. **GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i fynd ar drywydd 'Rhybudd i Ymadael' y Comisiwn a oedd wedi'i roi, a hysbysu'r Comisiwn pan oedd y sefyllfa wedi'i chadarnhau.**

## 5 CYNLLUNIAU AR GYFER CYNIGION DIWYGIEDIG (BCW/ 2012/ 3/ Papur 3)

5.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd drosolwg o'r cynllun arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Cynigion Diwygiedig ar gyfer Arolwg 2013.

Amserlen

5.2 Trafododd y Comisiwn yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Cynigion Diwygiedig, a nododd fod y cyfnod ymgynghori wyth wythnos yn osgoi rhedeg dros wyliau'r Nadolig a chyfnodau gwyliau'r Senedd. **Cytunwyd yr amserlen a gyflwynwyd gan y Comisiwn.** Er i'r Comisiwn gydnabod y byddai'r amserlen yn dynn, tybiwyd bod modd ei chyflawni, a byddai'n cynnwys y fantais o ddal i fyny yn gyffredinol ym mhroses yr Arolwg.

5.3 Fe wnaeth y Comisiwn drafod graddfa'r ymgynghoriad ar y Cynigion Diwygiedig. Gellid dehongli'r Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau i olygu mynnu ymgynghori'n unig ar yr etholaethau hynny a oedd wedi newid rhwng y cynigion cychwynnol a'r cynigion diwygiedig. Fodd bynnag, barn yr Ysgrifenyddiaeth oedd y dylid caniatáu cynrychiolaethau ar unrhyw etholaeth os oedd y Comisiwn i gadw'r opsiwn o wneud newidiadau i unrhyw etholaeth cyn cyflwyno argymhellion terfynol. **Cytunodd y Comisiwn y byddai'n derbyn cynrychiolaethau ar unrhyw etholaeth yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynigion Diwygiedig.**

Gwefan

5.4 Cynigiodd yr Ysgrifennydd y dylai ffurflen ar-lein gael ei datblygu a fyddai'n galluogi ymatebwyr i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynigion Diwygiedig yn uniongyrchol drwy wefan y Comisiwn, yn ogystal â thrwy'r post neu'r e-bost. Roedd hyn yn bosibl yn sgil yr ymarferoldeb gwell a oedd yn cael ei gynnig gan y wefan newydd a lansiwyd cyn yr ail gyfnod ymgynghori. **Cytunwyd y dylid galluogi cynrychiolaethau drwy ffurflen ar-lein.**

Roedd y Comisiynwyr yn croesawu rhoi'r wefan newydd ar waith, a nodwyd eu bod wedi diolch i Karl Perkins a Louise Fulker o Lywodraeth Cymru am eu cymorth i ddatblygu'r wefan.

Cyhoeddi

5.5 **Cytunwyd:**

- Dylid cyhoeddi adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar-lein ac mewn mannau cadw, ochr yn ochr ag Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn.
- Byddai copïau o gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori yn cael eu cyhoeddi'n electronig yn unig, a byddai copïau cyfyngedig yn cael eu hargraffu ar gais.

Agenda cyfarfodydd mis Medi

5.6 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd agenda drafft ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ar 6 a 7 Medi. Roedd yn bwysig bod y Comisiwn yn gwneud cynnydd sylweddol yn y cyfarfod hwn. **Cytunwyd y byddai agenda cyfarfod y Comisiwn yn cael ei**

**fabwysiadu. GWEITHREDU: Y Rheolwr Arolygon i gyflwyno dewisiadau ychwanegol na fyddai adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol o bosibl yn ymdrin â hwy'n fanwl, ac i ddarparu mapiau fel bo'n briodol.**

Fformat a chynnwys

5.7 Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth ddrafftiau o benodau cyflwyniadol cyffredinol Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn. Trafododd y Comisiwn y penodau hyn yn fanwl a chynigiodd newidiadau i'r testun. Cynigiwyd newidiadau hefyd i gynnwys pennod 5 (a fyddai'n cynnwys manylion pob etholaeth) i gwmpasu cynlluniau Cymru gyfan a dderbyniwyd, a'r rhesymeg dros pam na dderbyniwyd pwyntiau penodol. **Cytunwyd** newid i'r fformat er mwyn gwella eglurder y mapiau printiedig, ac roedd y mapiau hynny i'w gosod yn yr Adroddiad.

## 6 Y DYFODOL AR GYFER ETHOLAETHAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (BCW/ 2012/ 3/ Papur 4)

6.1 Cyflwynodd y Rheolwr Arolygon bapur a oedd yn crynhoi Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar 'Y Trefniadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Dyfodol', a chododd nifer o faterion technegol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr anawsterau sy'n codi gydag amrediad +/- 5% ar gwota etholiadol yn seiliedig ar 40 o etholaethau.
- Yr anawsterau sy'n codi pe bai etholaethau'n cyd-ffinio ag etholaethau Seneddol, a phe bai nifer yr etholaethau hynny'n newid o 30.
- Casglu data ar etholwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sut y gellid effeithio ar y ffurflenni ONS RPF29.
- Goblygiadau seneddau cyfnod penodedig y Cynulliad ar y Comisiwn a'i Ysgrifenyddiaeth.

6.2 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ymateb i Swyddfa Cymru ar y materion technegol yn codi o'r Papur Gwyrdd, mewn perthynas â'r ddau opsiwn ar gyfer etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a hyd seneddau cyfnod penodedig. Byddent yn ymgynghori ag ONS ynglŷn â'r ymateb er mwyn cytuno'r safbwynt ar yr effaith bosibl ar gasglu data ac argaeledd data. **GWEITHREDU: Llythyr ymateb i'w ddrafftio a'i gylchredeg i'r Comisiwn i'w gymeradwyo trwy ohebiaeth, i'w anfon i Swyddfa Cymru erbyn 13 Awst.**

## 7. UNRHYW FUSNES ARALL

7.1 Roedd y Comisiwn wedi clywed yn ei gyfarfod blaenorol fod y Dirprwy Gadeirydd wedi'i benodi'n Gadeirydd Comisiwn y Gyfraith, ac yn Farnwr y Llys Apêl, ac y byddai felly yn gadael ei swydd yn y Comisiwn ar 1 Hydref 2012. Roedd proses i benodi rhywun yn ei le wedi cychwyn, a gobeithiwyd y byddai amser am gyfnod o 'gysgodi' er mwyn galluogi'r Dirprwy Gadeirydd newydd i fynychu'r cyfarfodydd ym mis Medi.

7.2 Cysylltwyd â'r Comisiwn fel rhan o astudiaeth gwmpasu Comisiwn y Gyfraith ar ei adolygiad arfaethedig o'r gyfraith etholiadol. Teimlwyd nad oedd cwmpas yr adolygiad o unrhyw bryder uniongyrchol i'r Comisiwn. **GWEITHREDU: Yr**

**Ysgrifennydd i ateb Comisiwn y Gyfraith yn cydnabod yr astudiaeth, ond heb godi unrhyw faterion i'r Comisiwn.**

**Cyfarfodydd y Dyfodol**
6 a 7 Medi – Cyfarfod y Comisiwn (cytuno cynigion, a llofnodi'r rhan fwyaf o'r Adroddiad)
28 Medi – Cyfarfod y Comisiwn (llofnodi'r Adroddiad Cynigion diwygiedig terfynol, cynlluniau cyhoeddi)

BCW/ 2012/ 4ydd Cyfarfod

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, am 10:00am, dydd Iau 6 Medi a dydd Gwener 7 Medi 2012.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh Meistr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr Gerard Elias | Comisiynydd Cynorthwyol (eitemau 1 i 6 yn unig) |
| Mr Clive Lewis | Comisiynydd Cynorthwyol (eitemau 1 i 6 yn unig) |
| Mr Geraint Walters | Comisiynydd Cynorthwyol (eitemau 1 i 6 yn unig) |
| Mr Ben Whitestone | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Mr Ralph Handscomb | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Ms Michaela Gordon | Asesydd, yr Arolwg Ordnans |
| Yr Anrh Meistr Ustus Wyn Williams | Dirprwy Gadeirydd (Etholedig) - sylwedydd |

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd drwy groesawu Meistr Ustus Wyn Williams a'r Comisiynwyr Cynorthwyol i'r cyfarfod.

1.2. Diolchwyd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi gan y Dirprwy Gadeirydd am ganiatáu i'r Comisiwn gynnal ei gyfarfod ar ei safle.

1.3. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. Cytunwyd y cofnodion.

## 4. MATERION YN CODI.

4.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd:

- fod Rheolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl drafft wedi'u paratoi ac y byddent yn cael eu cyflwyno i'w trafod yn y cyfarfod ar 28 Medi;
- byddai ymateb y Comisiwn i'r Papur Gwyrdd ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (drafft terfynol) yn cael ei gylchredeg;
- roedd yr Ysgrifennydd wedi ymateb i bapur cwmpasu Comisiwn y Gyfraith ar y Gyfraith Etholiadol, heb godi unrhyw faterion.

## 5. **ADRODDIAD CYNNYDD** (BCW/ 2012/ 4/ Papur 2)

5.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd, yn dilyn datganiad y Dirprwy Brif Weinidog ym mis Awst ynghylch deddfu argymhellion Arolwg 2013 gan y Senedd, fod nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi'u derbyn ynglŷn â chostau Arolwg 2013, ar draws y DU ac yng Nghymru'n benodol. Roedd yr Ysgrifennydd wedi ymateb i'r ceisiadau hyn ar ran y Comisiwn.

5.2. Nid oedd Swyddfa'r Cabinet wedi cynghori'r Comisiwn eto ynglŷn â'i safbwynt ynghylch darparu cyfieithiadau swyddogol o enwau etholaethau (yn Gymraeg neu yn Saesneg). Ymgynghorwyd â Gweinidog Swyddfa'r Cabinet sy'n gyfrifol am ddiwygio etholiadol a chyfansoddiadol, a hefyd Ysgrifennydd Cymru, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. Yn absenoldeb y cyngor hwn, byddai'r Comisiwn yn cynnig cyfieithiadau swyddogol yn ei adroddiad cynigion diwygiedig a byddai'n nodi'n glir ei resymau dros wneud hynny.

5.3. Roedd dyddiadau ar gyfer y cyfarfod rhwng Comisiynau a oedd i'w gynnal ym mis Rhagfyr 2012 wedi'u tynnu'n ôl, a chynigiwyd trefniadau newydd ar gyfer mis Ionawr 2013. Roedd dyddiadau i'w cytuno gan y rhai a oedd yn bresennol, ac roedd argaeledd i'w gadarnhau drwy e-bost.

## 6. Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

6.1. Cyflwynodd Mr Elias adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol a oedd yn crynhoi'r cynrychiolaethau a oedd wedi dod i law, a gwnaeth argymhellion i'r Comisiwn o ganlyniad i hynny. Ystyriwyd pob ardal yn fanwl, ac atebwyd cwestiynau gan y Comisiynwyr Cynorthwyol ynglŷn â'u hadroddiad. Diolchwyd i'r Ysgrifenyddiaeth gan y Comisiynwyr Cynorthwyol am ei chymorth yn y gwrandawiadau cyhoeddus ac ar ôl y gwrandawiadau, ac ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflwyno'r adroddiad mewn pryd heb ei chymorth. Dywedodd y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd fod fformat y gwrandawiadau cyhoeddus, lle'r oedd pob un o'r tri Chomisiynydd Cynorthwyol yn bresennol, wedi hwyluso gweithio effeithiol ac wedi sicrhau cynnydd cyflym o ran datblygu'r argymhellion ar ôl i'r cyfnodau ymgynghori ddod i ben.

6.2. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed er mwyn datblygu'u hargymhellion, ac roeddent yn adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd tra hefyd yn bodloni'r meini prawf statudol. Dim ond os teimlwyd eu bod yn welliant ar gynigion cychwynnol y Comisiwn y cyflwynwyd cynigion newydd.

6.3. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Comisiynwyr Cynorthwyol am eu cyfraniad rhagorol at waith y Comisiwn.

*Gadawodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y cyfarfod.*

## 7. Trafodaeth gan y Comisiwn

7.1. Bu’r Comisiwn yn trafod argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer pob ardal yn fanwl iawn. Mae’r prif bwyntiau a’r casgliadau wedi’u crynhoi fel a ganlyn.

De-ddwyrain Cymru

Ystyriwyd yr holl wrthgynigion ar gyfer yr ardal hon gan y Comisiwn. Roedd y pwyntiau a wnaed wrth drafod yn cynnwys:

7.2. Roedd argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer Caerdydd yn tarfu llai ar ffiniau presennol na chynigion cychwynnol y Comisiwn.

7.3. Roedd cysylltiadau cymunedol a chysylltiadau cyfathrebu rhwng Adamsdown, Butetown a’r Sblot ac adlewyrchwyd y rhain yn yr etholaeth arfaethedig Cardiff South and Penarth.

7.4. Roedd cysylltiadau cymunedol clir rhwng Pentwyn a Phenylan, a Chyncoed a Phlasnewydd (trwy Penylan) a adlewyrchwyd yn etholaeth arfaethedig Cardiff Central. Roedd cynnwys Y Mynydd Bychan yn yr etholaeth hon hefyd yn adlewyrchu’r cysylltiadau â Gabalfa a Phlasnewydd ac yn ffurfio etholaeth canol dinas gydlynus felly.

7.5. Roedd rhaid ystyried y gwrthwynebiad sylweddol i gynnig cychwynnol Caerphilly and Cardiff North. Fe wnaeth y Comisiwn roi ystyriaeth ofalus i argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer Cardiff North and West Gwent. Roedd y Comisiwn yn cydnabod bod yr etholaeth hon yn ymuno â Cardiff North gyda meysydd fel Rhisga a Pharc Tredegar na fyddid efallai’n ystyried eu bod yn ddymunol o’u barnu ar eu pennau’u hunain. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y cyfansoddiad hwn yn briodol o ystyried y cynrychiolaethau a ddaeth i law a chyfyngiadau’r gofynion statudol. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys Cymuned Rudry yn yr etholaeth hon. Diystyriwyd hyn oherwydd ei bod mor fach, a chan y byddai’n torri Adran Etholiadol heb gynnig unrhyw welliant gwirioneddol i gyfansoddiad yr etholaeth.

7.6. Roedd yr argymhelliad ar gyfer Cardiff North and West Gwent yn caniatáu ar gyfer creu etholaeth wedi’i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Byddai’r etholaeth hon yn cynnwys etholaeth bresennol gyfan Caerphilly, ac eithrio adrannau etholiadol Bargoed a Gilfach a fyddai’n cael eu huno â gweddill Cymuned Bargoed yn etholaeth arfaethedig Merthyr Tydfil a Lower Cynon. Ystyriwyd bod cysylltiadau cymdeithasol a chyfathrebu cadarn yn etholaeth argymelledig Caerphilly. Nododd y Comisiwn fod cysylltiadau cadarn hefyd rhwng Abercarn/Crosskeys (yn etholaeth argymelledig Caerphilly) a Rhisga (yn etholaeth argymelledig Cardiff North and West Gwent) fodd bynnag ystyriwyd bod cynnig y Comisiynwyr Cynorthwyol yn briodol.

7.7. Roedd cryn wrthwynebiad i rannu etholaeth bresennol Cynon Valley yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn. Ystyriwyd pob un o’r gwrthgynigion a wnaed i leddfu’r pryderon hyn. Byddai llawer o’r gwrthgynigion yn hollti

Cymuned Llantrisant trwy symud Tonysguboriau i etholaeth Rhondda. Ystyriodd y Comisiwn y posibilrwydd hwn o ddifrif, er mai hwn oedd yr unig achlysur yn y cynigion ar gyfer Cymru lle byddai Cymuned yn cael ei thorri. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai torri Cymuned Llantrisant yn cael ei dderbyn, ystyriwyd bod canlyniadau pellach y gwrthgynigion ar gyfer yr ardal hon yn annerbyniol. Er enghraifft, byddai Awdurdod Unedol Merthyr Tudful yn cael ei rannu a chyfuniadau annymunol yn cael eu gwneud drwy uno Pontypridd â Chwm Rhymni a Brynna, Llanhari a Llanharan gyda'r Rhondda. Byddai etholaethau argymelledig y Comisiynwyr Cynorthwyol, sef Rhondda ac Aberdare a Merthyr Tydfil a Lower Cynon yn rhannu Cynon Valley o hyd, ond byddent yn lleddfu rhai o'r prif bryderon a godwyd. Byddai'r cynnig yn cynnwys Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed, Dwyrain Aberdâr, Gogledd Aberaman, De Aberaman a Chwmbach gyda'i gilydd mewn un etholaeth, a Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceibr ac Abercynon mewn etholaeth arall. Haerwyd mewn cynrychiolaethau a wnaed pe bai Cynon Valley yn cael ei rannu, yna'r pwynt mwyaf priodol fyddai rhwng Aberpennar ac Aberaman. Byddai gwrthgynigion eraill ar gyfer yr ardal hon yn tarfu ar yr etholaethau yng Nghaerdydd hefyd.

7.8. Nid ystyriwyd bod y gwrthgynnig a oedd yn cynnwys Betws gyda Thorfaen yn hytrach na Chaerllion gyda Thorfaen yn briodol gan fod pob un o'r prif gysylltiadau cyfathrebu rhwng Betws a Thorfaen yn pasio drwy Malpas a fyddai'n parhau yn rhan o etholaeth Newport.

Ar ôl trafod yn helaeth, **cytunwyd** y canlynol:

7.9. Dylai'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer Monmouthshire, Torfaen, Blaenau Gwent, Cardiff West a The Vale of Glamorgan gael eu **cadw**.

7.10. Dylid **derbyn** argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer Cardiff South and Penarth, Cardiff Central, Cardiff North and West Gwent, Newport, Caerphilly, Pontypridd, Rhondda and Aberdare a Merthyr Tydfil and Lower Cynon.

7.11. Dylai enw etholaeth Merthyr Tydfil and Lower Cynon gael ei **newid** i Merthyr Tydfil, Rhymney and Lower Cynon i adlewyrchu cynnwys Rhymney Valley, ac etholaeth bresennol gyfan Merthyr Tydfil and Rhymney.

7.12. Dylai enw etholaeth Cardiff North and West Gwent gael ei **newid** i Cardiff North and South West Gwent a fyddai'n adlewyrchu'r ardal ddaearyddol yn well.

<u>De-orllewin Cymru</u>

Bu'r Comisiwn yn ystyried yr holl wrthgynigion ar gyfer yr ardal hon. Roedd y pwyntiau a wnaed wrth drafod yn cynnwys:

7.13. Nid ystyriwyd bod y gwrthgynnig a newidiodd gyfansoddiad etholaethau Bridgend ac Aberavon ac Ogmore yn briodol gan y byddai'n torri Cymuned yn Bridgend ac nid oedd yn welliant ar gynigion cychwynnol y Comisiwn.

7.14. Roedd argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer Llanelli, Gower and Swansea West a Swansea East yn ystyried amrywiaeth o wrthgynigion ar gyfer yr ardal, ac er nad oedd yn dilyn un cynnig penodol yn ei gyfanrwydd, roeddent yn darparu ateb i fwyafrif y dadleuon a godwyd, er enghraifft drwy roi grym i'r cysylltiadau rhwng Gorseinon a Chymuned Llwchwr a rhwng Llangyfelach a Swansea East.

Ar ôl trafod helaeth **cytunwyd** y canlynol:

7.15. Dylai'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer Bridgend, Aberavon and Ogmore, a Neath and the Swansea Valley gael eu **cadw**.

7.16. Dylid **derbyn** argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer Swansea East, Gower and Swansea West a Llanelli.

<u>Gorllewin Cymru</u>

Ystyriodd y Comisiwn yr holl wrthgynigion ar gyfer yr ardal hon. Roedd y pwyntiau a wnaed wrth drafod yn cynnwys:

7.17. Roedd achos pendant iawn dros gynnwys adran etholiadol Maenclochog gyda South Pembrokeshire yn hytrach na Ceredigion and North Pembrokeshire. Dangoswyd y cysylltiadau cymunedol gan nifer sylweddol o gynrychiolaethau. Ystyriwyd bod cynnwys Llangeler gyda Ceredigion and North Pembrokeshire, er ei fod yn newid ôl-ddilynol o ganlyniad i Faenclochog, yn briodol oherwydd y cysylltiadau gyda Chenarth, Castellnewydd Emlyn a Llandysul.

Yn dilyn trafod helaeth **cytunwyd** y canlynol:

7.18. Dylid **derbyn** argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer Caerfyrddin, South Pembrokeshire a Ceredigion and North Pembrokeshire.

<u>Canolbarth a Gogledd Cymru</u>

Ystyriodd y Comisiwn yr holl wrthgynigion ar gyfer yr ardal hon. Roedd y pwyntiau a wnaed wrth drafod yn cynnwys:

7.19. Derbyniwyd nifer sylweddol o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu rhannu etholaeth bresennol Montgomeryshire. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw wrthgynigion ar gyfer cynllun a oedd yn cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol cynnwys Adrannau Etholiadol Montgomeryshire, sef Machynlleth, Glantwymyn a Llanbrynmair yn etholaeth Brecon, Radnor and Montgomery. Mantais y cynnig hwn fyddai rhannu Montgomeryshire rhwng dwy etholaeth yn unig, a byddai'n adlewyrchu'r cysylltiadau cyfathrebu rhwng y dwyrain/gorllewin a'r cysylltiadau cymunedol cryf rhwng yr ardaloedd hyn yn Montgomeryshire.

7.20. Derbyniwyd cynrychiolaethau a oedd yn cynnig cynnwys Aberriw a Ffordun gyda gogledd Powys yn hytrach na de Powys. Fodd bynnag, cafwyd ymateb cryf hefyd gan Gyngor Cymuned Ffordun a haerodd y dylai Ffordun aros gydag etholaeth de Powys. Dywedodd Cyngor Cymuned Aberriw y dylent aros gyda gogledd Powys. Daeth y Comisiwn i'r casgliad fod achos cryf dros

gynnwys Aberriw gyda gogledd Powys. Roedd yr achos dros Ffordun yn llai cadarn, ond roedd rhywfaint o dystiolaeth, fel honno a roddwyd ar ddalgylchoedd ysgolion, yn awgrymu cysylltiad rhwng Ffordun ac ardaloedd i'r gogledd. Er mwyn cynnwys Machynlleth, Glantwymyn a Llanbrynmair yn etholaeth Brecon, Radnor a Montgomery, yna byddai'n rhaid cynnwys Aberriw a Ffordun yn etholaeth gogledd Powys. Ar ôl pwyso a mesur, ystyriodd y Comisiwn fod hyn yn briodol.

7.21. Roedd achos cryf dros gynnwys Cymuned Llanddeiniolen (adrannau etholiadol Bethel, Penisarwaun a Deiniolen) yng Ngwynedd oherwydd y cysylltiadau cymunedol a'r cysylltiadau cyfathrebu cryf iawn â Chaernarfon.

7.22. Ar ôl cynnwys Adrannau Etholiadol Montgomeryshire, sef Machynlleth, Glantwymyn a Llanbrynmair yn etholaeth Brecon, Radnor and Montgomery, byddai angen nifer o etholwyr ychwanegol ar Wynedd er mwyn bodloni'r amrediad etholiadol statudol, hyd yn oed gan ystyried cynnwys Llanddeiniolen. Ni fyddai cynnwys Adran Etholiadol Eglwysbach yn gofyn am gynnwys unrhyw ardaloedd Awdurdod Unedol pellach nag etholaethau presennol yng Ngwynedd, ac ystyriwyd felly mai dyma oedd fwyaf priodol.

7.23. Roedd dadl gref iawn, a fynegwyd yn bennaf yn y gwrandawiad cyhoeddus yn Wrecsam, i Adran Etholiadol Rhiwabon a Ward South Cymuned Rhiwabon gael eu cynnwys gyda Denbigh and North Montgomeryshire.

Ar ôl trafod helaeth **cytunwyd** y canlynol:

7.24. Dylid **cadw**'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer Alyn and Deeside a Flint.

7.25. Dylid **derbyn** argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer Brecon, Radnor and Montgomery, Denbigh and North Montgomeryshire, Gwynedd, Ynys Môn a Bangor, Conwy and Colwyn a Wrexham.

7.26. Dylid **newid** enw etholaeth Flint i Flint and North Denbighshire i adlewyrchu ardaloedd Sir Ddinbych (gan gynnwys y Rhyl a Phrestatyn) sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth hon.

## 8. **Yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig** (BCW/ 2012/ 4/ Papur 3)

8.1 Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth ddrafft o'r Adroddiad Cynigion Diwygiedig i'r Comisiwn a ddrafftiwyd ar sail argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, a thrafodaeth gychwynnol yng nghyfarfod blaenorol y Comisiwn. Bu'r Comisiwn yn trafod yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig yn fanwl, gan awgrymu drafftio newidiadau drwyddo draw.

8.2 Cytunwyd:

- Byddai drafft diwygiedig o Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn yn cael ei gylchredeg i'w drafod ymhellach a'i gytuno trwy ohebiaeth cyn gynted ag y bo modd.
- Byddai'r Comisiwn yn cwblhau'r adroddiad yn y cyfarfod ar 28 Medi.

## 9. UNRHYW FUSNES ARALL

9.1. Trafododd y Comisiwn y cynnydd a oedd wedi’i wneud o ran cyhoeddi cynigion diwygiedig a **chytunodd** y byddent yn cwrdd â’r dyddiad cyhoeddi, sef 24 Hydref. Byddai’r dyddiad lansio’n cael ei gyhoeddi ar 20 Medi. Byddai copïau ymlaen llaw o’r adroddiad a mapiau cysylltiedig yn cael eu darparu i Aelodau Seneddol, dan embargo, a byddent yn cael eu dosbarthu yn y Senedd ar 23 Hydref. Nodwyd y byddai’r amserlen hon yn golygu y byddai Cymru fwy neu lai ar yr un raddfa amser â Chomisiynau Ffiniau eraill y Deyrnas Unedig, ar ôl llwyddo i ddal i fyny ar yr oedi o bedwar mis a ddigwyddodd yn gynharach yn y broses oherwydd materion y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i bawb a fu’n gysylltiedig â’r cyflawniad hwn.

## 10. Cyfarfodydd yn y Dyfodol

10.1. 28 Medi - Cyfarfod y Comisiwn (llofnodi’r Adroddiad Cynigion Diwygiedig terfynol, cynlluniau cyhoeddi ac ati)

BCW/ 2012/ 5ed Cyfarfod

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Caradog, Caerdydd, am 10:00am dydd Gwener 28 Medi 2012.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh Meistr Ustus Lloyd Jones | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr Ben Whitestone | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Mr Ralph Handscomb | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |

**1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU O FUDDIANT**

1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd.

1.2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

**2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2.1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr Paul Loveluck a Ms Michaela Gordon.

**3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

3.1. Derbyniwyd y cofnodion yn amodol ar newidiadau fân fel y cytunwyd.

3.2. Ni chododd unrhyw faterion o gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**4. ADRODDIAD CYNNYDD** (BCW/ 2012/ 5/ Papur 2)

4.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd fod y cynlluniau cyhoeddi ar gyfer y Cynigion Diwygiedig yn unol â'r amserlen. Roedd y gwaith o argraffu'r mapiau mawr i'w gwblhau ar 28 Medi 2012, a'r gwaith o gasglu papurau ynghyd i'w dosbarthu yn mynd rhagddo'n dda. Roedd y gwaith o argraffu Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn mynd yn ei flaen ac roedd yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig gyda'r cyfieithwyr ar hyn o bryd; byddai'n cael ei anfon i'w argraffu ar ôl i awgrymiadau a chywiriadau prawfddarllen a godwyd yn y cyfarfod hwn gael eu hymgorffori.

4.2. Gwnaed y cyhoeddiad lansio ar 20 Medi 2012. Roedd y lansiad wedi'i drefnu ar gyfer 24 Hydref 2012.

4.3. Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi mynychu cyfarfod ar y cyd defnyddiol iawn o bedwar Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau yng Nghaeredin. Bu'r Ysgrifenyddion yn rhannu cynnydd ac yn trafod cynlluniau amlinellol ar gyfer cyflwyno argymhellion terfynol yn 2013. Byddai'r trafodaethau hyn yn cael eu datblygu ymhellach yn y cyfarfod rhwng Comisiynau ym mis Ionawr 2013.

4.4. Roedd y cyfarfod rhwng Comisiynau a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ionawr 2013 yn cael ei drefnu gan y Comisiwn Ffiniau i Loegr. Roedd eitemau posibl a awgrymwyd i'w trafod yn cynnwys Cofrestru Etholwyr Unigol a newidiadau i ddeddfwriaeth ffiniau Cymru (llywodraeth leol a'r Cynulliad). Byddai cyfle ar gyfer cyfarfodydd rhanedig er mwyn galluogi ymdrin yn gyfochrol â materion llywodraeth leol a materion Seneddol.

4.5. Adroddodd yr Ysgrifennydd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth pellach ynglŷn ag Arolwg 2013, ond ei bod yn bosibl y byddai hyn yn newid ar ôl toriad y gynhadledd a chyhoeddi'r Cynigion Diwygiedig.

**Risgiau**

4.6. Roedd y broses o symud swyddfa'r Comisiwn yn mynd rhagddi ac yn unol â'r amserlen i'w chwblhau yn gynnar ym mis Ionawr 2013.

4.7. Roedd risg 'uchel' newydd wedi'i chodi ynglŷn â'r dyfalu gwleidyddol ynghylch pasio unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor mewn perthynas ag Arolwg 2013, a'r effaith ar yr ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn lliniaru'r risg hon drwy'r gweithgareddau cyfathrebu ynglŷn â lansio'r cynigion diwygiedig, gweler eitem agenda 6.

## 5. **Adroddiad Cynigion Diwygiedig** (BCW/ 2012/ 5/ Papur 3)

5.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cysylltu â Swyddfa'r Cabinet ynglŷn â'u safbwynt ar ddarparu dewisiadau amgen swyddogol o enwau etholaethau (yn Gymraeg neu yn Saesneg), er na dderbyniwyd unrhyw gyngor swyddogol gan Weinidogion. Eglurodd y Comisiwn fod y safbwynt yr oedd wedi'i fabwysiadu ynglŷn ag enwi etholaethau yn newid i'r safbwynt a ddatganodd yn flaenorol. Fodd bynnag, teimlai'r Comisiwn fod y grym gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno enwau amgen ar gyfer etholaethau, roedd hyn yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg ac nid oedd yn cael ei wahardd gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986. Byddai'r Comisiwn felly yn parhau â'i gynigion i ddarparu enwau amgen priodol yn Gymraeg neu Saesneg, gan ddibynnu ar iaith enw'r brif etholaeth.

5.2. Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth Adroddiad Cynigion Diwygiedig wedi'i ailddrafftio i'r Comisiwn, yn ymgorffori newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod ar 6/7 Medi a thrwy'r e-bost ar ôl y cyfarfod hwnnw. Gan gyfeirio at sylwadau a dderbyniwyd gan Gyfreithiwr y Trysorlys a thrwy e-bost gan Mr Paul Loveluck, trafodwyd yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig yn fanwl gan y Comisiwn ac awgrymodd newidiadau drafftio a phrawfddarllen pellach drwyddo.

5.3. **Cytunwyd**:

- Byddai'r fersiwn wedi'i hailddrafftio o Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn yn cael ei gyfieithu a'i anfon i'w argraffu.

## 6. **Cyfathrebu a Chyhoeddi'r Cynigion Diwygiedig** (BCW/ 2012/ 5/ Papur 4)

6.1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gynllun Cyfathrebu manwl ar gyfer cyhoeddi'r cynigion diwygiedig. Roedd y cynllun yn unol â Strategaeth Gyfathrebu

gyffredinol y Comisiwn a bwriadwyd iddo gynyddu ymwybyddiaeth o'r Comisiwn a'i gynigion, ac annog y cyhoedd i ymgysylltu â'r broses ymgynghori gyhoeddus.

6.2. Trafodwyd y Cynllun Cyfathrebu yn fanwl gan y Comisiwn, a chytunodd:

- Y byddai briff yn cael ei gynnal i'r wasg dan embargo am 1200 ar 23 Hydref.
- Dylai datganiad i'r wasg gael ei gyhoeddi dan embargo am 1200 ar 23 Hydref. Gwnaeth y Comisiwn nifer o newidiadau drafftio i'r datganiad i'r wasg drafft a gyflwynwyd.
- Dylid rhoi hysbysiadau cyhoeddus ym mhrif bapurau newydd cenedlaethol Cymru ar 24 Hydref yn rhoi gwybod i bobl am gyhoeddi cynigion diwygiedig, a ble y gallant weld y cynigion.
- Byddai fersiynau printiedig o'r adroddiadau, a mapiau fel bo'n briodol, yn cael eu dosbarthu yn y post i fannau cadw, llyfrgelloedd, awdurdodau lleol, Aelodau Cynulliad a rhai eraill ar y rhestr ddosbarthu.
- Byddai fersiynau printiedig o'r adroddiadau, a mapiau fel bo'n briodol, yn cael eu dosbarthu i Aelodau Seneddol, dan embargo, gan staff y Comisiwn yn bersonol am 1200 ar 23 Hydref yn Portcullis House yn San Steffan.

## 7. CYLCH GORCHWYL (BCW/ 2012/ 5/ Papur 5)

7.1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gylch Gorchwyl drafft a Rheolau Sefydlog ar gyfer y Comisiwn.

7.2. Cytunodd y Comisiwn y Cylch Gorchwyl a'r Rheolau Sefydlog yn amodol ar ychydig o newidiadau drafftio fân, y cyflwynwyd rhai ohonynt drwy e-bost gan Mr Paul Loveluck. Cytunodd yr Ysgrifennydd i ymgorffori'r newidiadau.

7.3. Trafododd y Comisiwn i ba raddau yr oedd yn ymwneud â monitro cyllideb y sefydliad, o ystyried mai gan yr Ysgrifennydd yr oedd y cyfrifoldeb dirprwyedig ffurfiol. Cytunodd y Comisiwn y byddai'n ddefnyddiol cael goruchwyliaeth o gyllideb y Comisiwn, ac y dylai felly gael adroddiad cyllid rheolaidd. Cytunodd yr Ysgrifennydd i ddatblygu adroddiad ar gyfer y Comisiwn a'i gylchredeg er mwyn cael sylwadau.

7.4. Cynigiodd yr Ysgrifennydd hefyd i ddarparu blaen agenda manwl i'r Comisiwn a fyddai'n sicrhau bod y Comisiwn yn bodloni ei Gylch Gwaith cyfan. Byddai'r blaen agenda hwn yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

## 8. UNRHYW FUSNES ARALL

8.1. Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Dirprwy Gadeirydd cyn iddo ymgymryd â'i swydd newydd yn y Llys Apêl, mynegodd y Comisiwn ei dristwch o golli'r arweinyddiaeth a'r arweiniad a ddangoswyd gan y Dirprwy Gadeirydd dros y chwe blynedd y bu yn y swydd. Diolchodd Meistr Ustus Lloyd-Jones i'r Comisiwn am eu dymuniadau da a dywedodd ei fod yn drist o adael, ond er ei bod yn anffodus ei fod yn gadael y Comisiwn ar adeg dyngedfennol, teimlai ei fod yn ei adael mewn dwylo diogel.

## Cyfarfodydd yn y Dyfodol

- Nid oedd dyddiad y cyfarfod rhwng Comisiynau a oedd yn cael ei gynnal gan y Comisiwn Ffiniau i Loegr ym mis Ionawr 2013 wedi'i benderfynu'n derfynol eto. Byddai manylion yn cael eu cylchredeg cyn gynted â'u bod yn hysbys.
- Nid oedd cyfarfod nesaf y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i drefnu eto. Roedd posibilrwydd y gallai fod angen cyfarfod ar ddiwedd mis Ionawr i drafod cynrychiolaethau ar y cynigion diwygiedig. Byddai'r Comisiwn yn ymgynghori â'r aelodau yn agosach at y dyddiad.

BCW/ 2013/ Cyfarfod 1[af]

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Hastings, Caerdydd, am 10:00am, bore dydd Iau 10 Ionawr 2013.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh Meistr Wyn Williams | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Yr Athro Robert M^c^Nabb | Comisiynydd |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Mr Ben Whitestone | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Mr Steve Halsall | Dirprwy Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Mr Ralph Handscomb | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Ms Michaela Gordon | Yr Arolwg Ordnans |
| Mr Peter Large | Swyddfa Ystadegau Gwladol |

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd.

1.2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Dim.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. Derbyniwyd y cofnodion yn amodol ar fân newidiadau fel y cytunwyd.

## 4. ADRODDIAD CYNNYDD AROLWG 2013 (BCW/ 2013/ 1/ Papur 1)

4.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd fod y cynigion diwygiedig wedi'u lansio fel y trefnwyd ar 24 Hydref 2012 ac mai cymharol ychydig o ddiddordeb a ddangoswyd gan y cyfryngau - efallai mai'r canfyddiad na fyddai'r argymhellion yn cael eu mabwysiadu gan y Senedd oedd i gyfrif am hyn. Yn gyffredinol, roedd hynny o sylw yn y cyfryngau yn canolbwyntio ar yr ochr wleidyddol gyda rhywfaint o feirniadaeth o 'wariant cyhoeddus gwastraffus' oherwydd y posibilrwydd y byddai'r arolwg yn cael ei ganslo. Ni feirniadwyd gwaith y Comisiwn, a rhoddwyd rhywfaint o ffeithiau am y broses ymgynghori. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 18 Rhagfyr 2012, a chyhoeddwyd cylchlythyr ar 20 Tachwedd i atgoffa pobl. Derbyniwyd dros 200 o gynrychiolaethau i gyd.

4.2. Roedd problem ysbeidiol wedi bod gyda gwefan y Comisiwn a olygodd nad oedd rhai defnyddwyr wedi gallu lawrlwytho'r adroddiad cynigion diwygiedig. Tra bod y nam hwn yn cael ei gywiro gan dîm technegol Llywodraeth Cymru,

roedd staff y Comisiwn yn gallu rhoi cymorth i bobl yn galw, trwy ddarparu gwybodaeth dros y ffôn, drwy'r post neu'r e-bost - ni chafwyd unrhyw gŵynion. Roedd y wefan yn gwbl weithredol cyn pen wythnos, ac roedd cyfrif Twitter dwyieithog yn cael ei dreialu gan y Comisiwn i sicrhau bod modd lledaenu gwybodaeth allweddol yn gyflym.

**Gwybodaeth reoli**

4.3. Trafodwyd y gyllideb a nodwyd yr arbedion yn sgil costau staffio a chostau argraffu is.

**Risgiau**

4.4. Roedd un risg uchel - sef y risg y byddai'r Senedd yn newid y Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau. Mynegodd y Comisiwn rywfaint o bryder y gallai'r posibilrwydd o ganslo'r arolwg a'r ddadl wleidyddol gael effaith hirdymor ar enw da'r broses cynnal arolygon, ac y gallai effeithio'n ddifrifol ar y broses o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn arolygon y dyfodol. Bydd hwn yn fater i bob un o bedwar Comisiwn Ffiniau'r DU ei ystyried.

4.5. Roedd y broses o symud swyddfa'r Comisiwn yn dal i fynd rhagddo, ac roedd yn debygol o gael ei chwblhau erbyn 23 Ionawr 2013. Roedd y symudiad wedi gostwng o fod yn risg uchel bellach gan na fyddai unrhyw effaith wirioneddol ar y broses cynnal arolygon.

**5. Yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig (BCW/ 2013/ 1/ Papur 2**)

5.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd na fu fawr o amser i ddadansoddi'n llawn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion diwygiedig y Comisiwn, ond cyflwynwyd barn gynnar a awgrymai, o'r 236 o gynrychiolaethau a dderbyniwyd, na fu llawer o ran materion newydd neu wrthgynigion. Fe wnaeth amlygu geiriau a chysyniadau ysgrifenedig a ddefnyddiwyd yn aml yn y cynrychiolaethau ddangos y prif feysydd dadlau a chefnogi.

5.2. Aeth y Comisiwn ati i drafod y dadansoddiad cychwynnol o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cynigion diwygiedig ar gyfer pob etholaeth, gyda'r nod o amlygu materion yr oedd angen eu dadansoddi a'u hystyried ymhellach.

5.3 Dyma'r pwyntiau allweddol a wnaed wrth drafod:

i. Nid oedd unrhyw ymateb mewn perthynas â: Aberavon and Ogmore; Bridgend; Cardiff South and Penarth; na The Vale of Glamorgan

ii. Nododd y Comisiwn fod Cyngor Sir Blaenau Gwent yn cefnogi cynnig y Comisiwn ar gyfer Blaenau Gwent.

iii. Nododd y Comisiwn fod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig diwygiedig i greu etholaeth Caerphilly a gynhwysir yn gyfan gwbl ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

iv. Nododd y Comisiwn fod rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig diwygiedig ar gyfer Cardiff North and South West Gwent o gymharu â'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal hon. Awgrymodd y Blaid Geidwadol cynnwys Cymuned Rydri yn yr etholaeth hon, a theimlwyd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i enw'r etholaeth hon.

v. Nododd y Comisiwn fod ymateb sylweddol mewn perthynas â Cynon Valley, ac etholaethau arfaethedig Merthyr Tydfil, Rhymney and Lower Cynon, a Rhondda and Aberdare. Yn y cyfnod ymgynghori hwn, ychydig o ymatebion oedd yn cynnwys gwrthgynigion, ond yn hytrach roeddent yn cynnwys gwrthwynebiad syml i rannu Cynon Valley, er eu bod yn cydnabod bod y cynigion diwygiedig yn welliant ar y cynigion cychwynnol.

vi. Roedd nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys Adran Etholiadol Cymer yn etholaeth Pontypridd oherwydd y cysylltiadau agos sydd gan yr Adran Etholiadol hon â Phorth a gweddill y Rhondda.

vii. Roedd cefnogaeth i'r cynigion diwygiedig ar gyfer Abertawe a Llanelli, gan gynnwys ail-uno Llwchwr a Gorseinon mewn un etholaeth, cynnwys Llangyfelach yn Swansea East a chadw Tre-gŵyr yn etholaeth Gower. Roedd Cyngor Tref Llanelli, fodd bynnag, yn gwrthwynebu etholaeth a oedd yn croesi afon Llwchwr.

viii. Roedd nifer o gynrychiolaethau, gan gynnwys oddi wrth unigolion, yr AS presennol ar gyfer Preseli Pembrokeshire a Chyngor Sir Penfro, yn cefnogi'r newid ffin a oedd yn symud Maenclochog i mewn i South Pembrokeshire. Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau'n gwrthwynebu enw'r etholaeth a gynigiwyd o'r newydd. Awgrymwyd y byddai 'Mid and South Pembrokeshire' yn enw gwell.

ix. Ychydig iawn o gynrychiolaethau a ddaeth i law mewn perthynas ag etholaeth Caerfyrddin, ac nid oedd llawer o wrthwynebiadau i'r newid yn ymwneud â Llangeler.

x. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gwrthwynebu etholaeth Brecon, Radnor and Montgomery yn ymwneud â maint yr etholaeth a rhannu etholaeth bresennol Montgomeryshire. Nododd y Comisiwn fod rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig diwygiedig a oedd yn symud Aberriw a Ffordun o'r etholaeth hon i Denbigh and North Montgomeryshire.

xi. Roedd nifer o gynrychiolaethau yn cefnogi'r diwygiadau i etholaeth Denbigh and North Montgomeryshire gan gynnwys Rhiwabon, Aberriw a Ffordun. Roedd cefnogaeth i'r enw diwygiedig hefyd. Roedd y gwrthwynebiad yn canolbwyntio ar rannu etholaeth bresennol Montgomeryshire a maint yr etholaeth arfaethedig.

xii. Roedd gwrthwynebiad i etholaeth arfaethedig Gwynedd yn canolbwyntio ar gynnwys Cymuned Llanddeiniolen yn yr etholaeth hon a symud Adrannau Etholiadol Machynlleth, Glantwymyn a Llanbrynmair i Brecon, Radnor and Montgomery (haerwyd bod y tair adran etholiadol hon yn troi mwy tuag at Wynedd, er i Gyngor Tref Machynlleth ysgrifennu i gefnogi Cynigion Diwygiedig y Comisiwn).

xiii. Roedd gwrthwynebiad i etholaeth Conwy and Colwyn yn canolbwyntio ar symud Cymuned Penmaenmawr, yn y cynigion diwygiedig. Roedd y dadleuon yn union gytbwys, ac yn gysylltiedig ag etholaethau arfaethedig Ynys Môn a Bangor a Gwynedd.

xiv. Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu ychwanegu Penmaenmawr/Capel Ulo at etholaeth Ynys Môn a Bangor oherwydd y cysylltiadau agos sydd gan yr ardal hon â Chonwy. Dadleuwyd hefyd nad oes gan Gymuned Llanddeiniolen gysylltiadau agos â Bangor ac na ddylid felly ei chynnwys yng Ngwynedd.

xv. Parhaodd y Comisiwn i dderbyn cynrychiolaethau gan drigolion yn Sir Drefaldwyn yn gwrthwynebu'r cynigion a hollti etholaeth Montgomeryshire o gwbl. Ni chynigiwyd unrhyw wrthgynnig.

xvi. Nododd y Comisiwn fod Cyngor Cymuned Coed-llai wedi gwrthwynebu ei gynnwys yn etholaeth Alyn and Deeside.

xvii. Ysgrifennodd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam i ddadlau y dylid diwygio enw etholaeth Wrexham Maelor i Wrexham yn unig. Fodd bynnag, ar ôl gweld ymateb Cyngor Wrecsam yn y cyfryngau lleol, ysgrifennodd un unigolyn i gefnogi cynnwys Maelor yn enw'r etholaeth. Dadleuodd Cyngor Wrecsam hefyd y dylid cynnwys Wardiau Cymunedol Aberoer a Phentrebychan yn Adran Etholiadol Ponciau ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn Etholaeth Denbigh and North Montgomeryshire gyda gweddill yr Adran Etholiadol honno, ac y bydd "gweithredu'r newid bach hwn (etholaeth o 591 yn unig) yn sicrhau na fydd yr adrannau etholiadol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn cael eu rhannu'n artiffisial rhwng etholaethau seneddol".

## 6. **BLAENGYNLLUNIO** (BCW/ 2013/ 1/ Papur 3)

6.1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd flaengynllun ar gyfer cwblhau Arolwg 2013 ac amlinellodd statws presennol Comisiynau eraill y DU. Cytunodd y Comisiwn i'r cynllun a oedd yn anelu i gyhoeddi'r Argymhellion Terfynol ar 13 Mehefin 2013.

## 7. **FFORMAT YR ADRODDIAD** (BCW/ 2013/ 1/ Papur 4)

7.1. Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth fformat drafft ar gyfer Adroddiad Argymhellion Terfynol y Comisiwn.

7.2. Derbyniwyd y drafft, a gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Cytunwyd y byddai'r Dirprwy Gadeirydd yn darparu Rhagair fel cyflwyniad.
- Byddai'r Comisiwn yn ystyried ymhellach y posibilrwydd o ddefnyddio'r opsiwn "blwch llwyd" esboniadol eto.
- Cytunwyd y byddai paragraff 3.4 yn adlewyrchu gallu cyfyngedig y Comisiwn i weithredu newid; ac roedd paragraff 3.9 i'w ddilyn gan drafodaeth o'r sylwadau a dderbyniwyd.

## 8. ADRODDIAD CYNNYDD I’R LLEFARYDD (BCW/ 2013/ 1/ Papur 5)

8.1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd ddrafft o adroddiad cynnydd blynyddol y Comisiwn i’r Llefarydd. Cymeradwywyd y drafft yn amodol ar newidiadau fân.

## 9. CYFARFOD RHWNG COMISIYNAU (BCW/ 2013/ 1/ Papur 6)

9.1. Trafodwyd a chytunwyd yr agenda ar gyfer y cyfarfod rhwng Comisiynau a oedd i’w gynnal.

## 10. BLAEN AGENDA

10.1. Trafodwyd blaen agenda ar gyfer y Comisiwn a oedd â’r nod o alluogi’r Comisiwn i flaengynllunio, i lywio ei fusnes a sicrhau mynd i’r afael â holl elfennau Cylch Gorchwyl y Comisiwn. Cytunwyd yr agenda. Trafodwyd proses yr holiadur ôl-arolwg hefyd, a chytunwyd y byddai adroddiad Gwersi a Ddysgwyd yn cael ei lunio gan yr Ysgrifennydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40.

BCW/ 2013/2il Gyfarfod

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Hastings, Caerdydd, am 10:30am, dydd Mercher 20 Mawrth 2013.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Anrh Meistr Wyn Williams | Dirprwy Gadeirydd (yn y Gadair) |
| Yr Athro Robert McNabb | Comisiynydd |
| Mr Paul Loveluck | Comisiynydd |
| Mr Ben Whitestone | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Mr Steve Halsall | Dirprwy Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Mr Matthew Redmond | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Mr Ralph Handscomb | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Ms Michaela Gordon | Yr Arolwg Ordnans |

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd.

1.2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Dim.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. Derbyniwyd y cofnodion yn amodol ar fân newidiadau fel y cytunwyd.

## 4. ADRODDIAD CYNNYDD AROLWG 2013 (BCW/ 2013/ 2/ Papur 1)

### Canslo Arolwg 2013

4.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd fod Arolwg 2013 wedi'i ganslo gan y Senedd ers y cyfarfod diwethaf, a bod y Ddeddf yn cadarnhau hyn wedi cael Cydsyniad Brenhinol, ond nad oedd eto wedi cychwyn. Diweddarwyd gwefan y Comisiwn gyda'r cyhoeddiad hwn a chydnabyddiaethau i'r rheiny a gyfrannodd at y broses. Roedd Adroddiad Terfynu a Gwersi a Ddysgwyd wedi'i baratoi i'w ystyried.

4.2. Roedd ASau ac ACau yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt, Prif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi'u hysbysu'n unigol fod yr arolwg wedi'i ganslo a'i effaith ar gydffinioldeb etholaethau'r Cynulliad ac etholaethau Seneddol. Roedd y Comisiwn wedi derbyn dau ymateb uniongyrchol gan ACau, a fawr ddim ymateb o bartïon eraill â buddiant.

4.3. Mae Swyddfa Cymru wedi cyhoeddi na fydd yn dwyn yn eu blaen newidiadau a awgrymwyd i etholaethau Cynulliad Cymru. Gall fod angen i arolygon interim ymdrin â newidiadau i'r etholaethau hyn a wnaed gan newidiadau i ffiniau llywodraeth leol, a **chytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Swyddfa Cymru i amlinellu'r ystyriaeth hon.

**Gwybodaeth Reoli**

4.4. Roedd y gydysgrifenyddiaeth bellach wedi cwblhau'r broses o symud i Dŷ Hastings ac, er gwaethaf rhai problemau cychwynnol gyda'i darpariaeth TG, nid amharwyd yn sylweddol ar fusnes.

4.5. Er gwaetha'r costau yn gysylltiedig â newid adeilad, yn sgil y gwelliannau o ran gwerth am arian ar eitemau fel argraffu a chyfathrebu, ynghyd â chanslo Arolwg 2013, awgrymwyd bod disgwyl i'r Comisiwn danwario erbyn diwedd y flwyddyn.

**Risgiau**

4.6. Roedd llawer o risgiau wedi'u dileu bellach o ganlyniad i ganslo'r arolwg. Teimlwyd mai'r risgiau mwyaf a oedd ar ôl oedd yr effaith ar enw da arolygon o ffiniau yn y dyfodol, a chadw gwybodaeth a phrofiad staff rhwng arolygon. Mae ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn yr hyfforddiant i staff yn hanfodol bwysig fel y gall arolygon yn y dyfodol ddechrau gyda'r hyder a ddaw yn sgil profiad.

**5. Y Cynigion Diwygiedig - Penderfyniadau a Wnaed a Phenderfyniadau dan Ystyriaeth (BCW/ 2013/ 2/ Papur 2**)

5.1. Adroddodd yr Ysgrifennydd fod y papur hwn yn gyfle i gofnodi statws terfynol Arolwg 2013, a'r cynigion hynny a fyddai wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad terfynol. Amlinellodd y Rheolwr Arolygon y penderfyniadau yr oedd y Comisiwn wedi'u gwneud ar argymhellion terfynol, a'r rheiny a oedd dan ystyriaeth pan ganslwyd yr arolwg. Nodwyd, mewn perthynas â pharagraff 4 o'r papur, fod rhai llythyrau cynrychiolaeth safonol hefyd ynglŷn â'r cynnig arfaethedig i symud Penmaenmawr/Capel Ulo i etholaeth Ynys Môn a Bangor; mewn perthynas â pharagraff 5 o Atodiad 1 fod gwahaniaeth nodedig yn nifer y cynrychiolaethau ynghylch etholaeth Cynon Valley o gymharu â'r cynrychiolaethau mewn perthynas ag etholaethau eraill; ac mewn perthynas â pharagraff 38 o Atodiad 1, roedd y cynrychiolaethau ynghylch Montgomeryshire yn cydnabod fod y cynigion diwygiedig yn well na'r gwreiddiol.

5.2. Ni wnaeth y Comisiwn unrhyw benderfyniadau pellach, ond cytunodd y dylid cadw'r papur a gyflwynwyd fel cofnod cywir o'r cynnydd a wnaed.

**6. Adroddiad Terfynu a Gwersi a Ddysgwyd** (BCW/ 2013/ 2/ Papur 3)

6.1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd y drafft cyntaf o'r Adroddiad Terfynu a Gwersi a Ddysgwyd a **dderbyniwyd** fel adroddiad o ansawdd uchel. Sail yr Adroddiad oedd crynhoi statws yr Arolwg adeg terfynu, er mwyn sicrhau bod y profiad a gafwyd yn ystod y broses yn cael ei ddwyn yn ei flaen a'i gadw yn y cof corfforaethol ac i argymell meysydd i'w gwella.

6.2. Codwyd pwyntiau i'w hystyried ymhellach yn y drafft nesaf:

**Adran 2**

- Gellir cyfarfod â phleidiau gwleidyddol ar wahân a gallai hynny arwain at drafodaeth fwy agored.
- Yn y dyfodol, dylai'r Comisiwn ymestyn y cyfle i randdeiliaid eraill gyfranogi, yn ogystal ag ymgysylltu â'r pleidiau gwleidyddol.
- Cynnwys Llywodraeth Cymru'n gynharach.
- Dylai Cadeiryddion y Comisiwn Ffiniau i Gymru a CFfLlLG weithio'n agosach â'i gilydd trwy gydol yr Arolwg, a dylai Cadeiryddion pob Comisiwn Ffiniau'r DU gyfarfod yn gynharach yn y broses.
- Brawddeg olaf i'w hychwanegu "… *Fodd bynnag, mae ein profiad wedi dangos bod y terfyn o 5%, o ystyried graddfa'r gostyngiad yn nifer yr etholaethau sy'n ofynnol yng Nghymru, wedi golygu bod rhaid diystyru cysylltiadau sydd wedi bodoli ers amser maith a gwneud rhai cysylltiadau llai amlwg…"*

**Adran 3**

- Dylid cyffredinoli cyfeiriadau at MapInfo trwy gydol yr Adroddiad a'u disodli â Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS).
- Yn y dyfodol, mae ymgysylltu a chyfranogi'n gynnar yn y broses yn gyffredinol i'w hannog.
- Dylai'r Arolwg sicrhau bod ymatebwyr yn ystyried effeithiau canlyniadau eu hawgrymiadau.
- Dylid pwysleisio hefyd y bydd trefniadau sicrhau ansawdd yn parhau i wella.

**Adran 4**

- **Cytunwyd** bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yn gynharach yn yr Arolwg.

**Adran 6**

- Byddai angen mynd i'r afael â rhai pwyntiau ynglŷn â'r berthynas rhwng rolau Comisiynwyr a'r Comisiynwyr Cynorthwyol.
- Gan ddefnyddio enghraifft yr Ysgrifenyddiaeth ar y cyd, dylid ystyried a fyddai Comisiwn ar y Cyd neu ryw elfen o gyd-aelodaeth yn fwy effeithiol.
- Dylid argymell bod Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau yn eistedd ar unrhyw banel cyfweld am Gyd-Ysgrifennydd.
- Mae angen datblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynau yn llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- Nodwyd bod staff yr Ysgrifenyddiaeth yn parhau i gael hyfforddiant rheoli prosiectau, ac y dylid cynnwys hyn.

**7. CYNLLUNIAU CYHOEDDI** (BCW/ 2013/ 2/ Papur 4)

7.1. Amlinellodd yr Ysgrifennydd y dewisiadau ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Terfynu a chofnodion yn ymwneud â'r Arolwg. **Cytunwyd**:

- Mae'r cofnodion i'w cyfieithu a'u cyhoeddi cyn gynted ag y byddant ar gael.

- Nid yw cynrychiolaethau unigol a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig i'w cyhoeddi, gan y byddai hyn yn golygu costau cyfieithu a chyhoeddi sylweddol na fyddai modd eu cyfiawnhau o gofio bod yr Arolwg wedi'i ganslo.

- Mae'r Crynodeb o'r Adroddiad Terfynu i'w gyhoeddi gyda'r argymhellion yn llawn.

**8. BLAEN AGENDA** (BCW/ 2013/ 2/ Papur 5)

8.1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd y blaen agenda ar gyfer y Comisiwn. Cytunwyd bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i'w gwblhau erbyn mis Medi 2013 a bod Adroddiad Blynyddol byr i'w gyhoeddi ar y wefan.

8.2. Gan mai hwn, o bosibl, oedd cyfarfod olaf yr Ysgrifennydd gyda'r Comisiwn, diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Ysgrifennydd am ei gyfraniad rhagorol at gynnal Arolwg 2013 yn llwyddiannus.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40.